YR YMOFYNYDD.

Rhif. 15.] MAWRTH, 1860. [Ail Gyfres.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(*Parhad o tud.* 33, *Cyf.* II.)

III.

I. Mae y Nod Cyfrin /|\ yn perthyn i "ddysg Ganapla," sef Kabbala yr Iuddewon; ac nid yw ond un rhan o'r darlun canlynol o'r deg Sephiroth, yn yr hwn y dangosir, yn ol y *theory of emanations*, crëadigaeth y byd a'i ddiwedd, yn ei fynediad allan oddiwrth Dduw, a'i sugniad yn ol at Dduw eilwaith.



Dosberthir y naw cyntaf yn Drioedd; a gelwir y cyntaf y Triad Dwyfol; a ffurfiwyd ef fel y canlyn; Duw, y *nought*, neu y Dim, yn dadguddio ei hun a gynnyrchodd y Sephirah cyntaf; cynnyrchodd hwnw yr ail, a'r ail y trydydd. Y Triad Dwyfol hwn, yn gosod allan *arllwysiad* y grëadigaeth, yw

y Nod Cyfrin. Os chwennychir gwybodaeth helaethach ynghylch y *Sephiroth*, gellir ei gael yn yr *Eclectic Review*, Chwefror, 1856; ond cyn y deallir cymaint a hyn, rhaid ystyried fod y byd anianol—hyny yw, *chaos*, yn hanfodi *cyn y creadigaeth*, fod y byd hwnw, yn iaith llyfr Genesis, "yn afluniaidd a gwag," ac mai *trefniad* yr afluniaeth hyny, arllwysiad goleuni, doethineb, deall, ac felly yn y blaen, sydd i ddeall wrth y greadigaeth.

Ond y mae elfen arall yn y drychfeddwl barddonol; nid yw y Nod Cyfrin ond *llun* y gair creadigol; ond y gallu creadigol oedd y *Gair* ei hun. Cyffyrddir yn awr âg athrawiaeth y *Logos*, yr hon yn ei pherthynas â Plato, Philo, Paul, ac Ioan, sydd yn rhy ddyrys, ac yn rhy helaeth, i ni ymyraeth â hi. Mae yn ddigon fod yr Ysgrythyrau yn gosod pwys mawr ar "Enw" Duw; ac fod y drychfeddwl i'r greadigaeth gymeryd lle *trwy* y Mab, sef y Gair, yn ddigon adnabyddus. "I ni, nid oes ond un Duw, y Tad, *o'r* hwn y mae pob peth. Ac un Arglwydd Iesu Grist, *trwy* yr hwn y mae pob peth." Defnyddid y drychfeddwl hwn ynghylch creadigaeth trwy y *Logos* neu y Gair, gan y Gnosticiaid, yn neillduol gan un o'r Bardesanes, yr hwn a ddesgrifia y greadigaeth fel *un llefariad parhâus o enw Duw*. Wrth gymeryd y pethau hyn ynghyd—y gair creadigol a'i lun, ceir allan ystyr y Nod Cyfrin.

2. Nid yw y cylchoedd ond benthygiadau oddiwrth y Gnosticiaid, yn neillduol oddiwrth gyfundrefn Valentine. Ei *Bythos* ef yw Cylch y Ceugant; y *Pleroma*, yw Cylch y Gwynfyd; a'r *Hyle*, yw Cylch Abred. Gellid parhâu y cymhariad at berthynasau eraill rhwng y ddwy gyfundrefn; ond nid yw hyny yn ofynol.

3. Bwddiaeth (*Buddhism*) yn ei tharddiad yw yr athrawiaeth ynghylch marwolaeth; a dygwyd hon o India gan Manes, y Persiad, a thaenwyd hi dros y parthau gorllewinol gan ei ganlynwyr ef—y Manicheaid. Barnai Buddhu fod pob bywyd yn rhan o'r Duwdod, pa un ai mewn llysiau neu anifeiliaid; ystyriai bob anifail yn gysegredig; a gommeddai gymaint a sathru deilen lâs o dan draed. Tybia rhai mai tynerwch y beirdd sydd weledig yn y rhan hono o'u hathrawiaeth; ond gwelir mai eu Dwyfoldeb ydyw, ac nid moesoldeb.

4. Y Manicheaid hefyd a ddygasant i mewn arferiad Persiaidd o addoli yr haul. Barnai Manes, neu o'r hyn lleiaf, dywedai, I ein Harglwydd Iesu Grist, ar ei esgyniad i'r nef, ddyosg ei gorff sylweddol yn yr haul, ei fod yn parhau i gymmodi y byd â Duw, a bod yr haul yn arwydd gweledig o hono ef.

5. Y mai llawer iawn o olrhain wedi bod ynghylch enw Hu Gadarn; ond yn ol fy marn i, yr unig un a ddaeth yn agos at y gwirionedd oedd Humphrey Parry.* Sylwodd efe fod tebygolr vydd rhyfeddol rhwng Hu, yr enw hwn a'r rhagenw Hebraeg—*hwh*—Hu, sef *efe*, yr hwn a ddefnyddid weithiau yn yr Hen Destament fel enw personol; ond ni wnaeth efe un cynnyg i'w cysylltu yn fwy agos. Ymddangosodd i mi fod cyfeiriad Rhys Goch at "ddysg Ganapla," yn pwyntio at y Kabbala, sef dysg ddirgel y Rabbiniaid Iuddewig, ac erbyn chwilio cefais brofion fod yr awgrym yn gywir. Defnyddir *hwh* y rhan fynychaf yn yr Hen Destament fel rhagenw, yn un o ddau ystyr—naill ai fel *efe*, *y mae*, neu ynte fel *hwn*, *yr un*. Ond nid oedd yr ystyr syml yma yn boddloni y Kabbaliaid; ymhyfrydent hwy mewn traddodiadau, a ffug-esboniadau; a gellir ffurfio barn ynghylch nodwedd eu hysgrifeniadau hwy oddiwrth ddywediad Lee,† mai Maimonides (yn y ddeuddeg-

* *Cambro-Briton*, II, *page* 68.
† *Hebrew Grammar*, xiii.

fed ganrif) oedd yr Iuddew cyntaf a adawodd chwareu ffolineb—"the first Jew who ceased to play the fool." Wrth ddarllen Esaiah xliii. 10, (fel enghraifft) tybient hwy fod y gair hwn i'w ystyried fel enw personol, fel un o wahanol enwau y Bôd mawr tragywyddol; a darllenent fel y canlyn:—

Fy nhystion i ydych, medd Jehofa,
A'm gwas yr hwn a ddewisais;
Fel yr adnabyddoch, ac y credoch fi,
Ac y dealloch mai myfi yw Hu: (neu Ffe)
O'm blaen nid oedd Duw wedi ei ffurfio,
Ac ni bydd un ar fy ol.

Mae genyn dystiolaeth bendant Cornelius Agrippa, yr hen swynwr,* fod y Kabbaliaid yn defnyddio y gair fel yma, "Est aliud nomen (Dei) Hu, *hwh*, revelatum Esaiæ, divinitatis abyssum innuens." Ac y mae yn ddiammheu genyf mai oddiwrthynt hwy y cafwyd yr enw Hu, ac fod dylanwad Iuddewaeth ddiweddar ar grefydd beirdd y canoloesoedd.

Parhâodd sectau Gnosticiaidd a Manicheaidd yn y dwyrain, o'r oesoedd boreuol hyd y canoloesoedd. Yn y ddegfed ganrif daeth sect y Paulitiaid â'r daliadau hyn i Ewrop: ac yn y ddeuddegfed ganrif, dan y gwahanol enwau Cathariaid, Albigensiaid, a'r cyffelyb, yr oeddent yn daenedig dros y cwbl o'r parthau gorllewinol. Erlidiwyd hwynt yn greulawn gan yr Eglwys Babaidd; ac o hyny allan aethant o'r golwg, er fod eu cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddirgelaidd am lawer o amser wedi hyny. Yr oedd dwy blaid o'r Cathariaid, un yn credu yr athrawiaeth Fanicheaidd am ddau Fôd tragywyddol, un yn *Dda* a'r llall yn *Ddrwg*, Ormuzd ac Ahrimanes; a'r llall yn gwithod personoliaeth yr egwyddor ddrygionus. Perthynai yr Albigensiaid (oddeutu O. C. 1209) i'r dosbarth olaf; ac yr oeddent hwythau yn rhanedig i ddau îs-ddosbarth, sef Cymdeithasau Baioli (tref yn Ffrainc), a Concoreggio. Gelwid Beirdd Morganwg yn ol llaw, *Gwyr Cwm y Felyn*; ond barnaf mai llygriad yw hwnw o ryw enw cyffelyb i Wŷr Cwmpeini Baioli; ac eu bod wedi hanu o'r gymdeithas hono.

Dichon i'r daliadau hyn ffynu ymhlith y beirdd am amser hir cyn eu gwneyd yn gyhoeddus. Gwasgarwyd yr Albigensiaid oddeutu O. C. 1209; ond nid ydym yn cael un cyfeiriad at y daliadau hyn yn Nghymru hyd ddechreu y bymthegfed ganrif, pan y cofnodir Hu Gadarn gan Iolo Goch, Gwilym Tew, Llywelyn Moel, a Rhys Brydydd. Dywed yr olaf,

"Bychanaf o'r bychenid,
Yw Hu Gadarn, vel barn byd,
A mwyav, a nav i ni,
Da coeliwn, a'n Duw celi.
Ysgawn ei daith ac esgud,
Mymryn tes gloewyn ei glud,
A mawr ar dir a moroedd,
A mwyaf a gav ar g'oedd;
Mwy na'r bydoedd! 'marbedwn,
Amharch gwael i'r mawr hael hwn."†

Mae yn amlwg oddiwrth y crybwylliadau barddonol mai yn y bymthegfed ganrif y ffynai *Barddas* yn Morganwg; ond deallir oddiwrth iaith Rhys

* *De Occult. Philosoph., Lib.* III. *cap.* xi.
† Geiriadur Pughe, *gair* Mymryn.

Brydydd nad oedd yn cael llawer o roesawiad ; ac yn iaith Siôn Cent, cawn brawf digon eglur na ddaeth y daliadau yn gyffredinol hyd yn nod ymhlith y beirdd eu hunain. Dywed efe,

"Dwy ryw awen, dioer ewybr,
Y sy'n y byd, loewbryd lwybr ;
Awen gan Grist, ddidrist ddadl,
O iawn dro, awen drwyadl,
Awen arall, call cant,
Ar gelwydd, vndr argoeliant,
Yr hon a gavas Gwyr Hu,
Camrwysg Prydyddion Cymru."

A dichon i'r iaith gref hon yn erbyn "y fudr argoeliant" beri i'r beirdd guddio eu penau. Syrthiodd Barddas i dir anghof ; ond trwy ddiwydrwydd Llywelyn Siôn, cadwyd peth o'u daliadau mewn ysgrifen ; ac yr ydym ninnau yn alluog i ffurfio barn o'u plegid.

Nid yw yn perthyn i'r traethawd hwn drin *Barddas* mewn cysylltiad â'r grefydd Gristionogol, nac i'w chollfarnu fel heresi a choelgrefydd. Ein prif amcanion oedd dangos ei hansawdd, a *gwadu ei hgnafiaeth Gymreig ;* a gobeithir ein bod wedi llwyddo ymhob un o'r ddau amcan.

PRIODOLIAETHAU DUW.

(Parhad o tud. 35.*)*

DOSRAN III.

Am y Priodoliaethau hyny o eiddo y Bod Dwyfol ag y mae yr ystyriaeth o'i Weithredoedd yn ein harwain i briodoli iddo.

Fod Duw yn dragywyddol ac anghyfnewidiol a ganlyn o angenrhaid, fel y gwelsom, oddiwrth ei fod yn ddiachosedig ; ond os ystyriwn yr effeithiau a achoswyd ganddo, ac nad oes achos iddynt ond ei hun,—neu, mewn geiriau eraill, y gweithredoedd y mae efe yn Awdwr o honynt, arweinir ni i briodoli iddo ef briodoliaethau eraill, yn enwedig y priodoleddau o *allu, doethineb,* a *daioni ;* ac yn ganlynol yr holl briodoliaethau sy'n gysylltiedig â hwynt, neu yn deilliaw oddiwrthynt.

Os ydym yn galw un yn *alluog*, pan y mae yn gallu cynnyrchu effeithiau mawr, nis gallwn lai na chyfrif y briodoledd hon i Dduw, fel Awdwr pob peth a welwn ; a phan yr ystyriom fawredd, amrywiaeth, a helaethrwydd gweithredoedd Duw, fel y maent yn amlwg yn yr oll o gyfansoddiad natur ; megis yn yr haul, y lloer, a'r ser ; yn y ddaear lle yr ydym yn preswylio, ac yn y llysiau a'r anifeiliaid a gynnwysa, ynghyd a'r galluoedd rhesymol a dealltwriaethol a feddiannir gan ddyn, nis gallwn feddwl am unrhyw effaith nad ydyw y gallu dwyfol yn ddigonol iddo ; gan hyny awdurdodir ni i ddyweyd ei fod yn anfeidrol, neu yn alluog i wneud unrhyw beth, nad yw yn ei

natur ei hun yn anmhosibl; fel ag y gall y Bod dwyfol bob amser wneud yr hyn a fwriada.

Buasai amcanion y fath Fod a hyn, yr hwn nas gellir ei luddias yn nghyflawniad un o'i fwriadau, yn amlwg iawn i ni ei weled, pe gallasem amgyffred ei weithredoedd, neu weled eu pendraw hwynt; ond nis gallwn wneud hyn â gweithredoedd Duw, y rhai ydynt yn anamgyffredawy i'n dealldwriaeth meidrol ni, ac nid ydynt etto wedi eu perffaith gwblhau; canys mor belled ag y maent yn agored i ni edrych i mewn iddynt, y maent yn amlwg mewn cyflwr o fynediad ymlaen at rywbeth mwy perffaith. Etto oddiwrth y rhanau israddol o beiriant mawr y bydysawd, y rhai i ryw fesur yr ydym yn ddeall, a'r rhai sydd wedi eu llwyr gwblhau; ac hefyd oddiwrth dueddiad amlwg pethau, gallwn gasglu yn ddiogel mai amcan mawr y Bod dwyfol trwy holl weithredoedd ei ddwylaw, ydoedd dwyn oddiamgylch ddedwyddwch.

Fod y byd mewn cyflwr o welliant cynnyddol, sydd amlwg yn yr hiliogaeth ddynol, yr hon ydyw y rhan fwyaf bwysig o'r byd. Mae gwybodaeth, ac amryw ddiwygiadau sylfaenedig ar wybodaeth (pob un o honynt yn wasanaethgar yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol er dwyn oddiamgylch ddedwyddwch), wedi bod ar gynnyddiad oddiar yr amser cyntaf yr ydym yn gwybod am dano trwy hanesyddiaeth hyd yn bresennol; ac yn y canrif diweddaf a'r presennol mae y mynediad cynnyddol yma wedi bod yn gyflym i'w ryfeddu. Trwy helaethiad a chynnydd masnach, mae cynnyrchion gwerthfawr y ddaear yn cael eu dosparthu yn fwy cyfartal i bob dyn fel eu gilydd, a thrwy welliant mewn hwsmoniaeth y maent yn cael eu lluosogi yn barhaus, er mawr leshad i'r holl deulu dynol.

Mewn canlyniad, yn rhanol, i'r gwelliant yma yn yr hiliogaeth ddynol, fel y gellir ei galw, mae y ddaear ei hun mewn sefyllfa o wellhad cynnyddawl; y rhanau cwrteithiedig yn barhaus yn ennill tir ar y rhanau anghwrteithiedig: trwy hyny, heblaw llawer o fanteision eraill, mae hyd yn nod erwindeb yr hin i ryw fesur yn cael ei dymheru, ac mae'r byd yn dyfod yn drigfa mwy iachus a chysurus i'w phreswylwyr mwyaf arbenig. Os bydd i bethau barhau mewn gwelliant fel ag y maent wedi bod hyd yn hyn, daw y ddaear yn baradwys, wrth ei chydmaru â'r hyn oedd yr amser gynt neu â'r hyn ydyw yn bresennol.

Amlygrwydd neillduol o ddaioni Duw ydyw fod rhanau difywyd natur, megis wyneb y ddaear, yr awyr, y dwfr, halau (*salts*), mwyn, &c., yn addas i atteb dybenion bywyd llysieuol ac anifeilaidd, y rhai sy'n heidio ymhob lle; a bod y cyntaf, fel y mae yn amlwg, yn wasanaethgar i'r olaf; a bod yr holl lysiau adnabyddus i ni yn gynnaliaeth uniongyrchol i fywyd anifeilaidd, neu mewn rhyw ffordd arall, yn llesiant iddo; ac mae yr holl anifeiliaid wedi cael eu cynnysgaethu â blys a galluoeddd, y rhai a'u cymhellant yn barhaus i chwilio am ryw fath o ddedwyddwch, ac yn eu galluogi i'w fwynhau.

Prawf eglur a ymddengys o fod Awdwr pob peth wedi bwriadu i'r greadigaeth anifeilaidd fod yn ddedwydd, ydyw eu bod hwy, pan mae eu galluoedd mewn llawn cryfder ac ymegniad, bob amser yn happus, a bod iechyd a mwynhad yn dal cysylltiad naturiol ac angenrheidiol â'u gilydd trwy holl gyfundraeth natur; tra o'r tu arall nid ellir dychymygu braidd am un bod a ewyllysiai ddrwg (*malevolent*), neu un a fuasai wedi creu creaduriaid gydag amcan i'w gwneuthur yn druenus, lai na buasai wedi eu creu y fath, fel, pan fyddai y creadur fwyaf perffaith, y byddai fwyaf truenus.

Mae yn gytunol â'r dybiaeth o ewyllys dda *(benevolence)* y Bod Dwyfol, fod y ddarpariaeth helaethaf wedi ei wneud ar gyfer dedwyddwch y creaduriaid hyny ag ydynt yn naturiol alluog i dderbyn fwyaf o fwyniant, yn enwedig yr hiliogaeth ddynol. Y mae genym ni lawer yn rhagor o amrywiaeth ac helaethrwydd galluoedd, er gweithredu a mwynhau, nag sydd gan eraill o breswylwyr y ddaear; ac y mae y byd yn cynnwys ychwaneg o ffynonellau er trosglwyddo dedwyddwch i ni nag i un gradd arall o fywydolion y ddaear. Mor berffaith mae y byd difywyd a'r un llysieuol ynghyd a'r un anifeiliaidd wedi eu haddasu er atteb dybenion da i ddyn, fel y gallwn ddweyd braidd fod pob peth wedi ei wneud ar ein cyfer ni; ac er fod llysiau ac anifeiliaid, y rhai wrth eu cymhwyso mewn rhyw fodd, ydynt niweidiol ini; etto mewn amser, deuwn i wybod i beth y maent yn dda, a dysgu gwneud defnydd o'u galluoedd rhyfeddol er ein budd a'n gwir leshad.

Y mae llawer o bethau yn nghyfundrefn natur, megis tymhestloedd, mellt, clefydau a marwolaeth, y rhai sydd yn ein dychrynu a'n blino yn fawr, a pha rai ydynt yn fynych yn achlysur o boen a thrallod dirfawr; ond nid yw y drygau hyn ond rhanol; ac os ystyrir y cyfan o'r gyfundrefn, o ba un y mae y drygau hyn yn rhan ac yn ganlyniad anghenrheidiol, fe geir ei bod, mor belled ag y gallwn ni farnu, y goreu a'r mwyaf ffafriol i ni ar y cyfan; ac na fyddai unrhyw *gyfreithiau* cyffredinol *(general laws)* eraill, a fuasent i ragflaenu a chau allan y drygau hyn, ddim i gynnyrchu cymmaint o ddedwyddwch. A dylai fod yn rheol genym, pan fyddom yn ystyried unrhyw beth neillduol yn nghyfundrefn natur, i gymeryd i mewn bob peth ag sydd yn angenrheidiol gysylltiedig ag ef, a phob peth a fuasem i'w golli pe yr ymddifadid ni o hono; fel ag os, ar y cyfan, y byddem, yn y cyfryw gysylltiad, i ennill mwy nag a fyddem yn ei golli, rhaid i ni ddywedyd fod y peth yr achwynid o'i herwydd mewn gwirionedd yn llesiol i ni, a dylem yn ddiolchgar ddwyn a dioddef y drwg, er mwyn y da o fwy sydd yn gysylltiedig ag ef. Mae yr elfen dân, er siampl, yn achlysur o lawer iawn o niwed a thrallod yn y byd; ond nid yw hyny ddim i'w gydmaru â'r lles sydd yn deilliaw oddiwrth y defnyddiad o'r elfen honno.

Gellir dywedyd, yn wir, y gallasai y Bod Dwyfol wahanu y pethau hyn, ac y gallasai, pe buasai yn berffaith ddaionus, roddi i ni y da yn ddigymmysg â drwg. Ond y mae llawer o boenau a drygau ag sydd yn fuddiol i ni, ac ar y cyfan yn rhoddi i ni fwy o fwynhad bywyd, megis y maent yn boenau a drygau ynddynt eu hunain. Mae yn sylwad cyffredin, bod llawer o ddynion yn mlodau eu dyddiau, ac yn enwedig tua diwedd eu hoes, yn fwy dedwydd, ar amryw ystyriaethau, o herwydd y poen a chaledi a ddioddefasant yn nechreu eu bywyd. Mae yr anhawsderau yr ydym yn cyfarfod â hwynt, yn tueddu i gryfhau y meddwl, trwy gynnyrchu ymarferiad priodol o'n nwydau ac o'n dealltwriaeth, ac y maent hefyd yn chwanegu ein blas ar y da a ddel i'n cwrdd. Pa fwyaf o sylw a roddwn i ddrygau o bob math, y mwyaf o dda a welwn ei fod ync ydfyned â hwynt, neu yn eu canlyn; fel ag, er dim a wyddom ni, ni ellid ffurfio cyfundrefn o well, hynny yw, cyfundrefn a fyddai yn fwy llawn o ddedwyddwch hyd yn nod na'r un bresennol; a llawer mwy, os gadewn, fel y mae'n bur debygol, fod tueddiad at ddedwyddwch mwy fyth yn y cyflawniad o'r holl gynllun.

(I'w barhau.)

SYLWADAU AR HEB. iv. 3.

Atteb i Mr. Evan Jones (*Rhif. Ion., tud.* 25).

Mr. Gol.,—Yr oeddwn yn gobeithio y buasai rhyw un mwy galluog, ac yn meddu mwy o amser na mi, gymeryd mewn llaw y gorchwyl o atteb gofyniad Mr. Jones; ond cefais ddisgwyl yn ofer; am hynny rhaid i mi wneuthur fy ngoreu i gyflawni ei gais. Mae'n debyg y mynai y gwr dysgedig y cyfeiria Mr. J. atto, iddo gredu "mai gweithredoedd trefn yr achub, rhwng Duw Dad a Duw Fab, cyn creu y byd materol, sydd i'w olygu" wrth y gweithredoedd a sonir am danynt yn y testun. Nis gwn pa un a allaf fod mor hapus a rhoddi boddlonrwydd i'r hwn y cyfeiria Mr. J. atto, y tro hwn megis o'r blaen, ai peidio. Gwnaf fy ngoreu.

Yr wyf yn meddwl fod yr awdwr yn dechreu ei bwnge yn y 3dd bennod, 6fed adnod. "Eithr Crist, megis Mab ar ei dŷ ei hun; ty yr hwn ydym ni, os *nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.*" Wedi dywedyd am y Cristnogion mai ty Crist oeddent, rhag iddynt feddwl fod eu sefyllfa yn rhy ddiogel o herwydd hynny, megis y darfu i'r Israeliaid o herwydd eu perthynas ag Abraham, ond a gawsant eu gwrthod oherwydd anghrediniaeth, y mae'r awdwr yn ychwanegu, "*Os* nyni a geidw ein hyder," &c. Beth yw yr *os* yma, os oedd y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd? ond pwnge yr awdwr yw dangos effeithiau peryglus annghrediniaeth; ac y mae'n myned ymlaen gan ddywedyd, "Am hynny, megis y mae'r Yspryd Glan yn dywedyd, Heddyw os gwrandewch ar ei leferydd ef, Na chaledwch eich calonau, megis yn y cyffroad." Yn y 7fed adnod y mae'n dyfod at yr orphwysfa, "Fel y tyngais yn fy llid na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa." Er fod yr addewid wedi ei rhoddi i had Abraham i feddiannu gwlad Canaan, etto oherwydd anghrediniaeth ni chafodd neb o'r rhai a ddaethant o'r Aifft feddiannu gwlad yr addewid ond Caleb a Josuah. Yna y mae'n cynghori'r Cristnogion na byddo ynddynt galon ddrwg o anghrediniaeth, eithr cynghori eu gilydd tra y gelwir hi heddyw, fel na fyddai i neb o honynt gael eu caledu trwy dwyll pechod: oblegyd eu bod wedi eu gwneud yn gyfranogion o Grist, *os* gwnaent ddal dechreuad eu hyder yn sicr hyd y diwedd: mae yr *os* yma etto yn dangos fod perygl yn awr megis gynt. "Wrth bwy (ebe efe) y tyngodd efe na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef, ond wrth y rhai ni chredasant. Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn oherwydd anghrediniaeth."

Wedi dangos mai anghrediniaeth ddarfu attal yr Israeliaid gynt i fyned i'r orphwysfa, y mae'n myned ymlaen i ddangos fod gorphwysfa hefyd ar gyfer y Cristion, a pherygl hefyd, trwy anghrediniaeth, ei cholli. Ond yr oedd yn rhaid dangos fod gorphwysfa mewn addewid i'r Cristion; ac wrth ysgrifenu at Iuddewon, Hebreaid, yr oedd yn rhaid dangos hynny hefyd ar dir Bibl, onide ni fuasai ei ymresymiad yn werth dim i'r Hebreaid. Yn y 7fed adnod yn y bennod o'r blaen yr oedd wedi difynu geiriau Dafydd Ps. xcv. 7, &c., i ddangos fod Duw yn amser y brenhin Dafydd yn son am orphwysfa, ac y mae yn galw yr orphwysfa hon yn orphwysfa Duw, cyffelyb i orphwysfa Duw yn ei mwyniant, pan orphwysodd oddiwrth ei waith ar y seithfed dydd. "Ofnwn gan hynny, gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa Ef, rhag bod neb o honoch yn debyg o fod yn ol." Ac i ddangos yn fwy neillduol y bydd i blant Abraham yn ol y ffydd i gael meddiannu'r orphwysfa, y mae'n cyfeirio at eiriau'r llw, trwy yr hwn y cauodd allan yr

Israeliaid anghredinioi o'i orphwysfa ef, y rhai ydynt i'w cael yn y Salm uchod." "Fel y tyngais yn fy llid, os ant i mewn i'm gorphwysfa i." Gan fod geiriau'r llw wedi eu llefaru gan Dduw trwy Dafydd, y mae'n amlwg, fel pe dywedasai'r awdwr, mai nid cyfeirio y mae at orphwysfa'r Sabbath, pan orphwysodd Duw oddiwrth ei weithredoedd y seithfed dydd; oblegid yr oedd y gweithredoedd wedi eu gwneud er pan grewyd y byd, a'r orphwysfa hon, sef gorphwysfa'r sabbath ym meddiant yr Israeliaid, ac wedi bod felly er ei sefydliad cyntaf; felly, nid at orphwysfa'r Sabbath y mae'n cyfeirio, gan fod y llw yn cael ei adrodd yn amser Dafydd; y mae gan hyny orphwysfa arall i'w gael, gorphwysfa Duw, ei orphwysfa Ef.

Wedi dangos nad at orphwysfa'r seithfed dydd y mae'r orphwysfa sydd yn y llw yn cyfeirio, oblegid fod y llw wedi ei wneud yn amser Dafydd, a'r gweithredoedd oddiwrth y rhai y gorphwysodd Duw ar y sabbath wedi eu gwneud er pan grewyd y byd, y mae'r awdwr yn myned rhag ei flaen i ddangos nad gwlad Canaan chwaith sydd i ni ddeall wrth yr orphwysfa a sonir am dani yn y llw, oblegid fod yr Israeliaid mewn meddiant o'r orphwysfa honno, oddiar pan ddygodd Josuah hwynt i wlad yr addewid. "Trachefn y mae efe yn pennu rhyw ddiwrnod, gan ddywedyd yn Dafydd, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau. Canys pe dygasai Jesus (neu Josuah) hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hynny am ddiwrnod arall." A chan ei fod yn awr wedi profi nad gorphwysfa'r seithfed dydd sydd i ddeall, am fod y gweithredoedd odddiwrth y rhai y gorphwysodd Duw wedi eu gwneud er pan grewyd y byd, ac nid yn amser Dafydd; ac nad gwlad Canaan chwaith yw'r orphwysfa mewn golwg gan Dafydd, oblegid pe felly, ni fuasai achos son am ddiwrnod arall ymhell ar ol hynny, sef yn amser Dafydd; gan hynny y mae gorphwysfa etto yn ol i bobl Dduw. Ac y mae yn ei galw yn orphwysfa Duw, oblegid y bydd hi yn debyg i'r orphwysfa a fwynhaodd Duw, pan orphenodd ei waith ac y dywedodd unwch ei ben, "Wele da iawn ydoedd." Nid o ran fod eisiau gorphwys ar Dduw ar ol gweithio chwech diwrnod; byddai hynny yn feddwl rhy wael i'w lettya am eiliad am Fod anfeidrol ymhob priodoledd: ond ei orphwysfa ef yw'r diddanwch, yr hyfrydwch meddwl hynny sydd yn wastad ynglyn â'r teimlad fod y gwaith i gyd yn dda. Felly hefyd y mae gorphwysfa etto yn ol i bobl Dduw, pan y cant yr hyfrydwch o edrych yn ol ar eu gweithredoedd a gweled eu bod yn dda. Dyma wledd na chaiff neb ond Duw a'r duwiol mo hono: dyma sabbath nad oes neb ond Duw ei hun yn ei fwynhau yn berffaith yn awr, na neb i gael ei fwynhau ond y rhai a fyddant debyg iddo. Bellach ni a awn ymlaen i roddi meddwl rhai esponwyr.

Macknight.—"Ad. 1. *Gan hyny*, gan i'r Israeliaid gael eu cau allan o wlad Canaan oherwydd eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod, *ofnwn*, er fod addewid o fyned iad i mewn i orphwysfa Duw wedi ei gadael i holl had Abraham yn y cyfamod, *rhag i neb o honoch chwi ddyfod yn fyr o'i chyrhaedd*. 2. Oblegid ninau hefyd y rhai ydym yn credu gan ein bod yn had Abraham, ydym yn yr addewid honno wedi derbyn y newyddion da am orphwysfa yn y wlad nefol, fel y derbyniodd yr Israeliaid yn yr anialwch y newyddion da am orphwysfa gwlad Canaan. Ond ni ddarfu i'r newyddion da a glywsant hwy gael un effaith ar eu hymddygiad, oherwydd na chredasant yr hyn a glywsant. 3. *Gan hynny*, ni gawn ni, had Abraham, y rhai ydym yn credu, fyned i mewn i orphwysfa Duw. Ond y mae'n orphwysfa wahanol i orphwysfa'r seithfed dydd, gan iddo ddywedyd ym yr Israeliad anghrediniol yn yr anialwch, *felly y tyngais yn fy llid nad aent i mewn i'm gorphwysfa i, er fod gweithredoedd y greadigaeth wedi eu gorphen*, a'r seithfed dydd wedi ei sefydlu, *oddiar neu er creadigaeth*

y byd; yn ganlynol yr oedd yr Israeliaid wedi myned i mewn i'r orphwysfa honno cyn i'r llw gael ei wneud."

Belsham —"Nid gorphwysfa'r sabbath oedd yr orphwysfa y mae'r Salmydd yn siarad am dani ad. 3—5."

"Ac er fod y gweithredoedd wedi eu gorphen er sylfaeniad y byd (oblegid y mae'r ysgrythyr mewn rhyw fan yn dywedyd fel hyn am y seithfed dydd: A gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd); er hynny y mae'n dywedyd yma, nid ânt i mewn i'm gorphwysfa i."

"Ni all yr orphwysfa y mae Dafydd yn cyfeirio atti fod yn orphwysfa'r sabbath oblegid cafodd y dydd gorphwys hwnnw, yn ol ysgrifeniadau Moses, ei sefydlu er dechreuad y byd. pan y gorphwysodd Duw oddiwrth ei lafur. Darfu i'r patriarchiaid, gan hynny, a'r Israeliaid yn yr anialwch, fwynhau'r orphwysfa hon, heb gau allan hyd yn oed y rhan hynny a gawsant, trwy gyflawn farn Duw, eu cau allan o wlad Canaan. Y mae sylwad y Salmydd, gan hynny, yn golygu rhyw fendithion oeddent etto i ddyfod."

Sykes.—"Oblegid yr ydym ni oll sydd wedi credu, i fyned i mewn i orphwysfa gorphwysfa berffaith oddiwrth ein holl lafur: gwell gorphwysfa na'r hon a addawwyd i'r rhai gynt, ac o'r hon y syrthiasant yn fyr, megis y dywedwyd, Tyngais yn fy llid nad aent i mewn i'm gorphwysfa i Ac yn wir, gorphwysfa Duw yw'r orphwysfa i'r hon yr ydym ni i fyned i mewn. gwell a mwy rhagorol na'r hon a addawwyd i'r rhai a ddaethant allan o wlad yr Aipht. Y fath ydyw, yn wir, a'r orphwysfa yr aeth Duw i mewn iddi ar ol y cread; pan orphenwyd y gwaith. ac y darfu iddo osod allan sylfaen y byd, hynny yw, cyflwr o lonyddwch a pherffaith ddedwyddwch. I ddangos hyn sylwer, 4. 5. Fod yr ysgrythyr yn llefaru mewn rhyw fan am y seithfed dydd, Gorphwysodd Duw y seithfed dydd oddiwrth ei holl weithredoedd. A thrachefn, pan y mae'n dywedyd am bobl Israel yn myned i mewn i orphwysfa, ac yn mynegi na chaent fyned i mewn iddi, amcenid trwy'r addewid hon, iddynt gael gorphwysfa oddiwrth eu holl ludded yn yr anialwch, a mwynhau heddwch a llonyddwch, a diogelwch a dedwyddwch, yn Canaan. Yma yi ddarfu iddo ddywedyd am yr hyn, mewn ffordd o ragoriaeth, y mae'n alw ei orphwysfa ei hun."

Adam Clarke.—"*Canys yr ydym ni y rhai a gredasom yn myned i mewn i orphwysfa.*] Yr ydym ni y Cristnogion, trwy gredu yng Nghrist, yn feddiannol mewn gwirionedd ar y bendithion ysprydol mawrion, rhagflaenwyr gogoniant tragywyddol, y rhai oeddent oll yn cael eu rhag-gysgodi trwy'r orphwysfa ddaearol hono neu'r dedwyddwch oedd wedi ei addaw i'r Israeliaid gynt. Y mae genym ni heddwch cydwybod, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan; yr ydym wedi ein hachub oddiwrth euogrwydd ac awdurdod pechod; ac felly yr ydym yn mwynhau gorphwysfa fewnol. Ond y mae hon yn gwahaniaethu oddiwrth orphwysfa'r seithfed dydd, neu'r sabbath, yr hwn oedd gysgod dechreuol o Ganaan, bendithion yr efengyl, a gogoniant tragywyddol; yn gymmaint ag i Ddaw ddywedyd o barthed i'r Israeliaid i anghrediniol yn yr anialwch, Tyngais yn fy llid nad aent i mewn i'm gorphwysfa i, er fod *gweithredoedd* y greadigaeth *wedi eu gorphen*, a gorphwysfa'r seithfed dydd wedi ei sefydlu oddiar sylfaeniad y byd; yn ganlynol yr oedd yr Israeliaid wedi myned i mewn i'r orphwysfa honno cyn i'r llw gael ei wneud."

Rosenmüller.—"Dylai y geiriau hyn gael eu cau rhwng cromfachau. O leiaf, y mae yr hyn sy'n canlyn yn uniongyrchol—*kai toi tôn ergon*, &c., yn sefyll yn well mewn cysylltiad â geiriau blaenaf yr adnod hon. Yr wyf yn meddwl gorphwysfa oddiwrth yr holl weithredoedd a wnaed ymhlith dynion (*inter homines*) oddiar sylfaeniad y byd, h. y —y dedwyddwch a'r llawenydd goruchel hwnnw, yr hwn gaiff dynion fwynhau, y rhai fyddont wedi cyflawni y dyledswyddau hynny oeddent i gael eu cyflawni yn y byd."

Crellius.—"Megis y gorphwysodd Duw oddiwrth ei weithredoedd am byth, felly ninnau hefyd, ar ol myned trwy amryw ludded, a gawn gadw gwyl barhaus a pherffeithiaf, fel y mae'n cael ei eglurô yn adn. 10."

Grotius, tywysog yr esponwyr.—"*Kai toi tôn ergon.* &c] Gallasai rhyw un wedi dywedyd am orphwysfa Duw, ddeall yr orphwysfa honno a ganlynodd greadigaeth y byd, ac o'r hon yr oedd Adda mewn rhyw fesur yn gyfranog, gan ei fod yn byw yn

ddedwydd heb weithio. Y mae'n dywedyd gan hynny, gweithredoedd Duw *apo katabolés kosmou*,&c., h.y. a wnaed yn union er sylfaeniad y byd. Gan hyny nid am yr orphwysfa honno yr oedd Duw yn son, pan y dywedodd ar ol cymmaint o amser nad âi y rhai gwrthnysig hynny i mewn i'w orphwysfa ef. Y mae apo katabolês kosmou, er seiliad y byd, yn arwyddoccau yma amser y chwech diwrnod a ddesgrifir yn Genesis."

Y mae Doddridge yn ei nodiad yn cymeradwyo esponiad Pierce o'r gweithredoedd, sef gweithredoedd y greadigaeth. Gwel hefyd Goadby, Whitby, Bengel.* ac amryw o esponwyr yn Pool's Synopsis; lle ni chair cymmaint ag un yn esponio'r gweithredoedd dan sylw am weithredoedd trefn yr achub; ac yn wir, ni fyddai'r ymadrodd, "Er seiliad y byd," ddim yr un mwyaf cymmwys i osod allan yr hyn a gymerodd le yn ol y dyb gyffredin *cyn* seiliad, ac nid wedi, er seiliad y byd. Canad beth yw meddwl y geiriau, y mae un peth yn amlwg; nad gweithredoedd trefn yr achub rhwng y Tad a'r Mab sydd i ni ddeall yma; onide ni fuasai gocheliadau mor bwysig, rhybuddion mor syml yn cael eu rhoddi gan yr awdwr i ochelyd anghrediniaeth, rhag i'r canlyniad fod yr un iddynt hwy ag i'r Israeliaid gynt. "*Byddwn ddyfal* gan hynny i fyned i mewn i'r orphwysfa honno, fel na *syrthio* neb, yn ol yr un esiampl o anghrediniaeth." Nid oes dim *syrthio* i fod ar dir etholedigaeth DDI*ammodol*.

O. Evans.

* Bengel.—Y mae Bengel, un o'r beirniaid clasurol mwyaf yn yr oes ddiweddaf, o'r farn fod *protasis*, neu y rhagflaenor yma yn olaf, a'r *apodosis*, neu'r ymadrodd eglurhaol yn flaenaf. Y *protasis*, meddaf, yw r ymadrodd, "Er fod y gwe thredoedd wedi eu gorphen oddiar dechreuad y byd;" a'r *apodosis*, "Etto dywedodd," &c., ond nad yw'r gair, *et'o*, ddim yn cael ei arfer yma, oherwydd fod y protasis yn olaf. Felly, pe buasai yr ymadroddion yn eu trefn reolaidd, buasent fel hyn, "Er fod y gweithredoedd wedi eu gwneuthur er seiliad y byd, etto dywedodd ef, Tyngais yn 'y llid, Os ant i mewn i'm gorphwysfa i:" h. y., Er fod gweithredoedd y greadigaeth wedi eu gwneuthur er seiliad y byd, etto y mae'r llw yn aros gyda golwg ar yr orphwysfa; gan hyny, y mae gorphwysfa heblaw gorphwysfa'r seithfed dydd.

RHESWM A CHREFYDD.—Rhif. III.

(Parhad o tudal. 42.)

Mae yn ffaith, bron annghredadwy i Drindodwr onest, i fod pob adnod yn y Bibl ag a dybygir ei bod yn dysgu'r Drindod, gwedi cael ei rhoddi i fynu, fel prawf o'r athrawiaeth, gan ryw un neu arall o Drindodiaid. Hyny yw, mae un Trindodwr yn dal i fod yr adnod hon a hon yn dysgu'r Drindod; a Thrindodwr arall yn cyfaddef nad oes son am y Drindod yn yr adnod honno, ond fod adnod mewn man arall yn gryf o blaid yr athrawiaeth. Trindodwr arall etto sy'n dyfod ymlaen, gan gyfaddef nad yw *un* o'r adnodau crybwylledig yn cyfeirio yn y mesur lleiaf at y Drindod, ond fod yr athrawiaeth honno yn amlwg iawn *yn y man a'r man!* &c. Ac fel hyn y rhoddir i fynu gan hwn neu arall yr adnodau i gyd ag sy'n cael eu hystyried o blaid y Drindod. A ydyw ddim o'r ffaith hon yn ddigon i argyhoeddi y Trindodwr onest ac ymofyngar, nad oes un sail i athrawiaeth y Drindod yn y datguddiad Dwyfol? Fe gyfaddefir o bob tu fod yr Undod yn amlwg ar bob tudalen trwy'r hoff

ddatguddiad; ac etto fe drinir yr Undodwr fel pe bae annghredadyn! Pa hyd y parha creadur *rhesymol* Duw i ymddwyn mor *af*resymol!

Awn yn y blaen, yn awr, i sylwi ar yr adnodau a ddygir, yn gyffredin, er profi'r Drindod. Ac wrth ddechreu yr ydwyf yn addaw gwrthbrofi'r athrawiaeth hon o enau Trindodiaid eu hunain. Nid arferaf, o'r dechreu i'r diwedd, ond esponiadau y mwyaf dysgedig ym mhlith ein brodyr Trindodaidd. Hyfryd a boddhaol iawn yw'r teimlad a dardd oddiar y ffaith, fod goleuni a phwyll yn arwain y diragfarn a'r cywir-galon i'r *un casgliad*, mewn perthynas i iawn feddwl rhai o ymadroddion mwyaf tywyll y Gair Dwyfol.

Yn y lle cyntaf dygir Gen. i. 1, "Yn y dechreuad y creodd Duw," fel prawf o luosogrwydd y personau dwyfol, oherwydd fod y gair "Duw" yn y rhif lluosog, "Duw'au." Ond fe wyr pob un a'r sydd yn gyfarwydd â'r iaith Hebraeg mai priod-ddull *(idiom)* y iaith yw hyn, er dangos parch, mawredd ac anrhydedd. Yn y gramadegau mwyaf cynnwysfawr a gorau'r iaith Hebraeg fe elwir y dull yma o lefaru am Dduw, *pluralis excellentiæ*—y rhif luosog o *barch* i Dduw. (Gwel Prof. Stuart, Michaelis, Gesenius's Lexicon, Professor Lee, &c., oll yn Drindodiaid.) Drachefn, Gen. i. 26, "Gwnawn ddyn," sy'n fynych yn cael ei ddwyn ymlaen fel prawf o luosogrwydd y personau, gyda Thrindodiaid ag nad ydynt yn hyddysg iawn yn rheolau yr iaith Hebraeg. "Gwnawn ddyn," yn y rhif lluosog, yn arwyddocau, fel y dywedwyd eisioes, nerth, parch a gogoniant. Mae'r un dull o lefaru yn perthyn i ieithoedd ereill yn gystal a'r Hebraeg. Mae ein Brenhines ni yn llefaru bob amser yn y rhif lluosog. Ni (*we*) yw ei hiath pan yn annerch ei deiliaid. (Gwel sylwadau D. L. Evans ar y pwnc hwn yn Rhifyn Ion., tud. 8.) Chwanegwn eiriau onest John Calvin ar y dull hwn o lefaru: "Mae llawer o Gristnogion yn casglu oddiwrth y geiriau yma dri o bersonau yn y Duwdod; ond mae arnaf ofn nad yw'r sail yn dda—(I fear the argument is not valid.")

Mae rhai yn meddwl fod prawf o dri pherson yn y Duwdod yn Gen. xviii. 2, pan yr ymddangosodd tri gwyr o flaen Abraham. "Ac efe a goddi ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele dri-wŷr yn sefyll ger ei fron; a phan eu gwelodd, efe a redodd o ddrws y babell i'w cyfarfod hwynt, ac a ymgrymodd tua'r ddaear (dull cyffredin o gyfarch yn barhaus ymhlith y dwyreinwyr), ac a ddywedodd, Fy Arglwydd," &c. Mae Sarah (12 ad.) yn galw Abraham ei "harglwydd." Ac yna dygodd damaid a fara i gryfhau "eu calon," &c. Mae yn amlwg iawn, oddiwrth ymddygiad Abraham ar y pryd, mai bach oedd ei feddwl ef am y tri dyn dyeithr; mai rhai blinedig oeddynt, a bod chwant bwyd arnynt yn fawr! Rhaid ei bod yn anhawdd iawn i gael rhywbeth ar *rith* Trindod yn y Bibl, cyn y buasai dynion yn meddwl mor isel am y tri pherson a thybied fod eisiau arnynt "damaid o fara i gryfhau'r galon"!! Awn at Calvin drachefn, yr hwn sydd yn dywedyd fod "y sylw (sef bod cyfeiriad yma at y Tri Pherson) yn ffol a gwageddus iawn, ac yn agored i wawd gelynion crefydd." (Gwel Fraser—Note to Witsins on the Creed, vol. 2., p. 433.)

Fe feddylia rhai fod Gen. xix. 24, yn eglur ddangos fod amrywiol bersonau yn y Duwdod: "Yna'r Arglwydd a wlawiodd ar Sodom a Gomorrah frwmstan a thân oddiwrth yr Arglwydd." Haerant mai Duw Dad sydd i ni feddwl wrth "Arglwydd" yn y lle cyntaf; a Duw Fab wrth "Arglwydd" yn yr ail le, sef mai'r "Arglwydd (Duw Dad) a wlawiodd—oddiwrth yr Ar-

glwydd" (Duw Fab). Ni gawn adael Calvin i esponio'r adnod hon etto, gan fod ei enw yn barchus yn ein gwlad. "Gwn fod yr hynafiaid (the ancients) yn esponio'r geiriau yma, *Yr Arglwydd oddiwrth yr Arglwydd*, megis yn arwyddo, i'r Tad wlawio oddiwrth y Mab; ond nid yw'r meddwl yma, ar un tir, yn briodol yn y man hwn. Wrth ail-adrodd y gair Arglwydd, yr oedd Moses yn bwriadu nodi allan yn fwy effeithiol ddialedd ofnadwy Duw." (Theol. Tract., tud. 773.)

Y gwir yw, yn ol arferiad yr iaith Hebraeg, fod yr *enw*, yn fynych, yn cael ei ail-adrodd yn lle y *rhagenw*, "A'r Arglwydd a wlawiodd oddi wrtho ei hun." Mae'r geiriau hynod hyn hefyd yn dangos mewn modd nerthol iawn fod y gwlaw a'r storom gwedi eu bwriadu gan Dduw mewn modd neillduol.

D. Lloyd.

(*I'w barhau.*)

MYGLYS: NEU OES Y CHWIFFIO.

(*Parhad o tud.* 40.)

Yn awr, fodd bynag, yr ydym ni wedi dyfod allan gydag athroniaeth weledig a phwysadwy, ac y mae mwg yn weledig yn cydymdeithio â hi, fel ei chysgod a'i harwydd. Cyffyr gofynol oedd yn y cyfnod sylweddol hyn. Y myglys oedd angenrheidiol er gorphen yr adeiladi, megis ag yr oedd *Novum Organum* Bacon i'w ddechreu ef. Y bibell oedd mor anhepgorol angenrheidiol ag yw athroniaeth y goresgyn mewn gwir feddiant fywioliaeth Eglwysig. (Pwh.)

A pham y daeth o "Amerika", goruwch un lle arall?—Oblegid mai hi ydyw paradwys gweriniaeth, beiddiaf ddweyd; y gweriniwyr hyn ydynt yn chwiffwyr galluog. Tynant gyda grymusder, a phafflant yn dew-blygiau. Yr unig wahaniaeth ganfyddaf fi rhwng archdeyrn a gweriniwr ydyw fod y naill â gallu yn barod ganddo, a'r llall yn dymuno pe cai ef. (Pwh.)

Un egwyddor sydd yn mhawb; y gradd a'r lle sydd yn gwneud y gwahaniaeth. 'Rwyf yn cofio imi unwaith ddarllen hanesyn am dri dyn, sef Henadur, a Threfnieddydd, a Bedyddiwr, aeth yn llongddrylliad arnynt ar ynys anghyfannedd, pa le yr oeddent yn byw mewn perffaith gysondeb gyda'u gilydd. 'Nol iddynt gael eu gwaredu a dychwelyd i'w gwlad enedigol fe gwympodd y tri allan â'u gilydd am y wir Eglwys. Peth derchafedig yw adfyd. (Pwh.)

Mae hynyna yn peri imi gofio am gynrych o adfyd brenhinol yn 1848, pan oedd Louis Philippe, druan gwael! yn mabwysiadu yr enw William Smith. Pan y daeth drosodd i Loegr, yr oedd yn isel iawn pryd hyn; estynai ei law allan i ysgwyd dwylaw geirwon a bawlyd gweithwyr ar y rheilffordd Brytanaidd. Hyn oedd i ddangos iddynt pa iath frenin da a didwyll oedd y Ffrancod wedi wrthod. (Pwh.)

Hefyd y Duc o Lucca, yn fuan ar ol hyn, a ddychrynai am ei goron ddugiawl a'i orsedd ei hun. Cyfarchodd ei ddeiliaid yn y dull canlynol mewn dugiawl gyhoeddiad: "Nyni, Charles Augustus o B———, Tywysog C———, at ein hanwyl gariadus ddeiliaid! Dymunwn deyrnasu drosoch mewn cariad, ac nid trwy ofn; ac am hyny yr ydym yn agor i chwi ein calon dadawl," &c. (Pwh.)

Areithiau brenhinoedd a brenhinesau sydd oll yn cael eu darllen gyda phibell neu *cigar* yn y genau. Hyd yn oed esgob a ddarllen ei orchymyn ymweliadol yn y dull hyny, pan fyddo yn datgan o'i ysgrifyfr am ei eglur sêl dros ogoniant Duw a daioni yr Eglwys, ac yn coffa i'w offeiriaid yr ymdrech mae yn barod wedi wneud, fel gwystl o barhad ei lwyr ymroddiad at y gwaith mewn amser dyfodol. (Pwh.)

Canghellydd y Trysorlys pan fyddo yn agor ei gŵd a'i gynnygiadau, yn yr hwn y mae yn meddwl mawrygu ei gywreinrwydd ei hun, nid ydyw un amser yn esgeuluso

cymeryd y ddarbodaeth a'r cysur o osod pibellaid o fyglys cryf yn ei enau; ac y mae ei gyfeillion neu ei elynion yn gorfod tynu mewn gyda'r anadl, yr un modd, gyda hyfrydwch neu atgasrwydd, y tarth swyddol yr hwn nid allant dalu allan. (Pwh.)

Y Golygyddwl "ni", o gylch hanes, sydd yn chwiffio pan yn ymfrostio yn ei gysondeb a'i gywirdeb ei hun, ac yn ffaethfaleh yn a lolygu dywediadau a gweithiau ei ei uwchradd tu ol i'r llen a'i ddirgelfan ei hun. (Pwh.)

Y rhifyn blaenaf o newyddiadur sydd yn chwiffio pan yn cyhoeddi i'r byd y brawychus newydd fod y werin wedi rhoddi galwad am argraffu 500,000 o gopiau o hono ef. (Pwh.)

Yr awdwr sydd yn chwiffio pan fyddo yn ysgrifenu rhagymadrodd i'w lyfr, neu gyhoeddi ei ddalen enwol gyda "barn y wasg," bob amser yn esgeluso "barnau annhurion." (Pwh.)

Yr arwerthwr chwiffia wrth werthu etifeddiaeth; y masnachwr wrth werthu ei eiddo; a'r crachfeddyg pan fyddo'n cyhoeddi ei gywreinrwydd ei hun, ac effeithiolded ei gyfareddau. Yn Ashton (yn ol y dychweliadau a osodwyd allan yn 1848) nu cyffeiriwr ar bymtheg a werthasant chwech galwyn yr wythnos o Godfray's Cordial, Mother's Quietness, a Soothing Syrup. Yn Preston un ar ugain o gyffeirwyr a werthasant 68 pwys yn wythnosol o *narcotic mixtures*—gwenwyn tuag at gadw babanod yn llonydd tra byddai eu mamau yn gweithio yn yr oes hyn o ddiwydrwydd. (Pwh.)

A boneddigesau a chwiffiant oll pan wedont y naill wrth y llall, neu ddyweyd wrth y boneddigion fel maent yn cashau ansodweddau beirniadaeth bersonol, clec, athrod, a chymhendod. (Pwh.) A pha fodd y dewisant wisgoedd syml heb addurniadau coegdlws o emau. [Pwh.] A faint yn fwy dedwydd ydynt gartref nag ydynt mewn dawns-gymanfa, gwleddoedd, chwareudai, cyngherddau, a golygfeydd eraill o orwael edd ffasiwnus [Pwh.] A'r boneddigesau ieuainc a chwiffiant pan yn dyweyd wrthych nad ydynt hwy byth yn meddwl priodi,—ac na welsant erioed mo'r dyn a oddefent ei uchelfreinio megis eu harglwydd arganghellydd, periglor, neu geidwad eu cydwybodau, na hyd yn oed eu cyrph. [Pwh.] Tlen foneddigesau a chwiffiant pan ddywe ant wrthych faint o gynygion ddarfu iddynt wrthod—cynnygion dymunol; yn gydwybodol wedi eu gwrthod, oddiar egwyddor wedi eu gwrthod—ac nad oeddent wedi edifaru. [Pwh.] A gwragedd chwiffiant pan ddywedont wrthych fel yr andwyai y gogyddes y gimaw oni b'ai ei bod hwy yn gofalu. [Pwh.] A'r rheswm a rodda y feistres fod y boten wedi andwyo, am na wnaeth Mari "fel y gorchymynodd hi iddi." [Pwh.]

A hoccedwyr a chwiffiant pan f'ont yn gwneuthur aberthau dychrynllyd. A hudladron pan f'ont yn benthyeca arian, a gweyd y cânt eu talu'n gyda chant y cant o lôg. A'r ymchwyddwyr oll chwiffiant wrth fyned allan i'r byd ag ysgrifendyst teiliwr ganddynt. Ond y mae fy *Cigar* yn poethi—'rwyf wedi myn'd i'r pen byr iddi. Dyna hi—dyna hi yn gorwedd yn llweh ac yn lludw!

Ie, llweh a lludw! Dyna ddiwedd pob gwagedd, a phob disylwedd, rhith-hawliad anwirioneddol. Mae'n rhaid iddynt oll ddiflannu fel y pwffynau hyna o fwg, a chan adael ar eu hol ddim ond yr elfen ddigymysg o ludw gwyn, dyna yr unig ddefnydd gwirioneddol maent yn feddiannu; a chaif ei ddatguddio yn y diwedd, y naill ffordd neu'r llall, dim ond aros ychydig nes byddo y *cigar* i losgi allan. Ond a oes yn ddiau, yn yr oes yr ydym ni yn byw fwy o'r gwagedd hyn, a phethau disylwedd, a mwy o ymhoniad nag mewn un oes arall? Mae yn rhaid bod mwy, oblegid fod yr oes yn fwy bywiog a brydsylliog. Mae yn oes o gyffröad meddyliol angerddol, oes o gyllunian heb ragfwriol, ac oes yn yr hon y mae ymddangosiadau yn fwy twyllodrus nag erioed. Mae hi yn oes y goreurad ac arwisgo arian gydag efydd a thwyll o dan ymddangosiad allanol ardderchog; oes o gynnygiadau tu hwnt i un o'i blaen; oes o ymddangosiadau golygus, yn yr hon mae'r methdalwr yn fynych yn dysgleirio mwy mewn gwychder na'r dyn a'r arian. Ond etto mae sylweddolrwydd mawr hefyd yn yr oes yr ydym ni yn byw. Y mae yn fwy sylweddol yn ei hathroniaeth, yn ei chelfyddyd, ac yn ei dealltwriaeth gyffredinol, na'r holl oesau blaenorol. P'odd, ynte, mae yn ddisylwedd hefyd? Yn unig am fod un sylwedd yn cael ei roddi i arddangos sylwedd arall, ac i dramwy yn ei le; ac fel hyn cawn ein bod wedi cae allan y sylwedd cyfeiliornus yn lle yr uniawn. Yr ydym bron yn yr un sefyllfa a

phe byddem wedi gafaelu mewn cysgod. Pan fyddo gwr yn cymeryd adref wraig ieuanc ddoniol iawn, yr hon all chwareu a chanu, ac ymddiddan Ffrancaeg, a chydsiarad yn hyawdl am gân-chwareudai a math o ddawnsiau, a chwardd-draethiau a choeg chwareuon; yr hon fyddo wedi darllen Sir Walter Scott, Tom Moore, Dickens, a Thackeray, ac hyd yn nod wedi canfod trwy athroniaeth y Prif Gynghor yn Nhwrci *(Divan)* gan Bulwer. Meddyliai yn ddilai ei fod wedi cael rhywbeth sylweddol, megis St. Clare yn Nghaban F'ewyrth Twm; dim dadl nad oedd yn coelio hyn pan cymerodd adref ei Fari. Ond 'nawr ac yn y man, y sylwedd ddechreuodd fygdarthu. "Y brolio sy'n dyfod," a'r sylweddolrwydd tra rhagorol hyn o wraig oedd â sylweddolrwydd cydradd a digymysg o forwynion, a mamaethod, a meddygon, a chyffeirwyr mewn gofal; heblaw fod Massa druan ei hun, yr hwn na wnai byth ddim a fyddai yn iawn, er ei fod yn gwylio ei oreu, colli ei gysgu, prynu gwisgoedd, gemau, cerbydau, a gosgorddwisgoedd i Madam, nid yw ddim ond tarth, ac nid yw rhai'n ond yn unig thuser aur, yn yr hwn y mae hi yn dihoeni ei hunan, a Massa druan wedi bod yn gafaelu am ddrychioliaeth gyda'i holl ddiledrithedd a'i sylweddolrwydd. Nid sylwedd mewn tafodiaith isel sydd yn cyfansoddi sylweddoledd bodoliaeth un dyn, Pob dyn sydd yn caulyn drychioliaeth, pa mor hanfodol bynag, pan fyddo yn dyrysu ei hun mewn a les nwythder a siomedigaethau. Ac y mae pob dyn yn dyrysu ei hunan yn y fath drallod, pan weithio yn benaf neu yn unig iddo ei hun, er mwyn dyrchafiad ei deulu ei hun, neu ei enw, er boddhad ei wagedd a sefydliad ei gymysgaeth ei hun. Oblegid fod gan bob dyn les cyffredinol yn gystal a lles personol i edrych atto, y cyntaf sydd bob amser yn gysegredig, a'r diweddaf yn fwy neu lai halogedig bob amser. Y cyntaf bob amser sydd yn cyfiawnhau a sancteiddio yr ail; a'r ail sydd bob amser yn fasdarddadd ac anfoddlonawl, ac anfynych os byth yn gyfreithlon, heblaw y buredigaeth y mae yn dynu oddiwrth y cyntaf, yr hwn, fel arogldarth y deml, ganoleiddia y llygredigaeth sydd yn deilliaw o'r aberthau ac o'r braenllyd weddillion. Drwg fyddai genym ddweyd nad oes arogldarth yn yr oes yr ydym ni yn byw ynddi, i buro ei hawyrgylch, a sancteiddio ei bywiogrwydd, oblegid y mae llawer. Byddai teml cymdeithas yn anoddefadwy hebddo. Buasem yn byw mewn gwir gigydd-dy, neu fuarth lledrwr, neu weithfa ddrewllyd, oddiwrth effeithiau gwenwynllyd pa un ni chaem ddihangfa. Ond y mae arogldarth cymdeithas yn codi i lynu yn gymysgedig âg awyrgych o hunanoldeb i'w ddewino ef. A'r arogldarth hyny yw y gwrthddrych y mae teimladau haelionus cymdeithas yn ymestyn atto—diwylliad y rhywogaeth, diwreiddiad anwybodaeth, anfoesoldeb ac annghyfiawnder, sefydliad heddwch ac unohaeth rhwng cenedlaethau a dynolryw. Dyma arogldarth y deml. Dyma fwg y dyn cyffredinol, yr hwn sydd yn codi yn oes oesoedd; ac yn canoleddio tawch hunanoldeb personol, a'r mygu gwael trwy yr hwn y mae y person yn ymegnio i ddyrchafu ei hunan; ac er anrhydedd i'r oes yr ydym ni yn byw ynddi, y mae llawer o hwn yn ganfyddadwy yn barod, ac y mae yn tyfu i faintioliaeth gyda digyffelyb fuandra, ac yn y tyfiant hyn mae gobaith y dyn tylawd a gorfoledd y dyn da.

Cyfd., RHISIERDYN.

DYDD NADOLIG.

(Atteb i Mr. Evan Jones, Rhif. Ion., tudal. 25.)

GAN fod sylw Dr. Adam Clarke mor berth'nasol, llawn, a chyda hynny yn weddol o fyr, gosodaf ef o flaen y cyhoedd, gan obeithio y rhydd ryw faint o foddlonrwydd i Mr. J. ac eraill.

"Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylied eu praidd liw nos," Luc ii, 8. "*Gwilied eu praidd liw nos.*" Yr oedd yn arferiad gyda'r Iuddewon i anfon allan eu defaid i'r diffaethwch, oddeutu'r pasg, a'u dwyn tuag adref ar ddechreuad y *cynnar wlaw*: tra yr oeddent

allan yr oedd y bugeiliaid yn eu gwilied ddydd a nos. Gan mai yn y gwanwyn yr oedd y pasg yn digwydd, a'r cynnar wlaw yn dechreu yn gynnar ym mis *Marcheseran*, yr hwn sydd yn attcb i ran o'n *Hydref* a'n *Tachwedd* ni, yr ydym yn cael fod y defaid yn cael eu cadw allan trwy yr holl *haf*. A chan nad oedd y bugeiliaid hyn ddim *ctto* wedi dwyn eu diadelloedd tuag adref, y mae'n brawf tebygol *(presumptive argument)* fod Hydref etto heb ddechreu, ac yn ganlynol mai nid ar y 25ain o Ragfyr y ganed ein Harglwydd, pan nad oedd diadelloedd allan yn y caeau; ac nis gallasai gael ei eni yn ddiweddarach na mis *Medi*, oblegid fod y diadelloedd allan yn y nos etto. Ar y sail hon ei hun y dylai yr *enedigaeth* yn *Rhagfyr* gael ei rhoddi i fynu.

"Y mae yr *amser* y ganed Crist wedi cael ei ystyried yn destun o bwys mawr ymhlith Crist'nogion. Er hynny, nid oedd y mater yn cael ei ystyried o un pwys ganddo Ef yr hwn a ysprydolodd yr Efangylwyr; gan nad oes cymmaint ag un awgrym yn cael ei roddi ar y pwnge, oddieithr y flaith amseryddol a grybwyllwyd uchod. Y mae ysgrifenydd diweddar yn gwneuthur y sylw canlynol: 'Darfu i'r Crist'nogion cyntaf osod bedydd Crist oddeutu'r 15fed flwyddyn o *Tiberias*; ac wrth gyfrif *deng mlynedd ar ugain* yn ol, gosodasant ei enedigaeth yn y 43ain flwyddyn o'r *Julian period*, yr 42ain o *Augustus*, a'r 28ain a'r ol bud llugoliaeth Actium. Parhaodd y dyb hon hyd y flwyddyn 527 o oedran Crist, pan y darfu i *Dionysius Exiguus* ddyfeisio'r cyfrif cyffredin. Y mae dynion dysgedig a duwiol wedi gwag-siarad yn rhyfedd ar y pwnge, gan wneuthur o bwys yr hyn mae yr Yspryd Glan, trwy ei ddistawrwydd, wedi dangos yn eglur iddynt nad yw o ddim pwys. Y mae *Fabricius* yn rhoddi cyfres o ddim llai na 136 tyb ynghylch *blwyddyn genedigaeth* Crist: ac am *ddydd ei enedigaeth*, y mae hwn wedi cael ei osod gan sectau Crist'nogol a dynion dysgedig ymhob mis o'r flwyddyn. Yr oedd yr *Aiffiaid* yn ei osod yn *Ionawr*; Wagenseil, yn *Chwefror*; Bochart, yn *Mawrth*; rhai, a grybwyllir gan Clemens Alexander, yn *Ebrill*; ereill, yn *Mai*. Y mae Epiphanius yn son am ryw rai oeddent yn ei osod yn *Mehefin*; ac am eraill y rhai a dybient mai yn *Gorphenaf* y ganed ef. Wagenseil, yr hwn nid oedd yn sier am *Chwefror*, a'i gosododd yn Awst; Lightfoot, y 15fed o *Fedi*; Scaliger, Casaubon, a Calvisius yn *Hydref*; eraill yn *Tachwedd*. Ond darfu i'r Eglwys Ladin (y Pabyddion), *gorucha'* mewn gallu, ei osod ar y 25ain o Ragfyr, y dydd yn gymmwys ar yr hwn yr oedd yr hen Rufeiniaid yn cadw gwyl eu duwies *Bruma.' Gwel ragor yn Robinson's Notes on Claude's Essay, vol. i. p. 275, &c. Y Pab Julius I. oedd y person a wnaeth y cyfnewidiad hyn, ac ymddengys iddo gael ei wneud am y rheswm hwn: yr oedd yr haul yn awr yn dechreu ei yrfa yn ol at Alban Hefin *(northern tropic)*, gan orphen y ganaf, gwneuthur y dyddiau byr yn hwy, a dwyn i mewn y gwanwyn. Yr oedd y cyfan hyn yn eithaf tebyg yn cael ei ystyried yn arwyddluniol *(emblematical)* o godiad Haul Cyfiawnder ar dywyllwch y byd hwn, a dwyn y wawr-ddydd oddifry i ymweled â dynolryw."

OWEN EVANS.

* *Bruma*.—Y mae rhai yn meddwl mai ystyr y gair *Bruma* yw *Alban Arthan* (winter solstice) neu'r dydd byrraf, oddiwrth *brevissima*, *brevima*, *bruma* byrraf dydd byrraf; eraill a fynant mai oddiwrth *Bromius* neu *Brumius*, un o enwau Bacchus y mae'n tarddu. Canad p'un am hyn, cedwid gwledd rodresfawr i Bacchus, duw'r gwin, yr amser hwn, ac yn eithaf tebyg i wledd y Crist'nogion ar ddydd genedigaeth Crist fel y tybient hwy, gael ei gosod yn ei lle, fel na buasai i'r paganiaid wedi troi yn Crist'nogion, deimlo eu bod yn cael colled wrth ymadael â'r rhialtwch mawr oeddent yn arferol ag ef yn ngwyl *Bruma*.—O. E

MICHAEL SERVETUS.

(Parhad o tud. 38.)

Servetus, er garwed y driniaeth a gyfarfyddodd, a barhaodd yn ei dyb flaenorol; a phenderfynodd gyhoeddi trydydd llyfr yn erbyn y Drindod a rhai athrawiaethau eraill. Y llyfr hwnw, am ba un y cafodd ei losgi yn Geneva, a ddaeth allan yn Vienne yn nechreu y flwyddyn 1553, dan yr enw "*Christianismi Restitutio*," neu Adferiad Crist'nogrwydd. Hwn yw y llyfr hynod yn yr hwn y ceir y crybwylliad cyntaf o'r Prif Fedlygon, am gylchrediad y gwaed! Argraffodd fil o gopiau; y rhan fwyaf o honynt a losgwyd naill ai yn Vienne, gyda llun *(effigy)* yr Awdwr, neu yn Frankfort; yr hyn yw y rheswm ei fod yn awr mor brin. Nid oedd Servetus yn Arian nac yn Photinian; yr oedd yn wrth-drindodwr, ac etto yn dal fod math o addoliad dwyfol yn ddyledus i'r Iesu, fel Mab Duw, mewn ystyr uwch na neb arall. Geilw ef yr athrawiaeth hon, "Dirgelwch anadnabyddus i'r byd." "Nid yw Ysgrifenwyr wedi cydunо," medd y diweddar Robert Robinson, "yn mha ddosparth o *hereticiaid* y dylid cofrestru y Meddyg Yspaenaidd hyn. Ei dybiadau am yr Eglwys Grist'nogol oeddant yn iawn, a gwrthdystiodd yn erbyn pob trais awdurdod ar gydwybod. Yr oedd yn Fedydd wr trwyadl, ac yr oedd yn ystyried bedydd babanod yn hollol ofer, ac yn adgasrwydd ffiaidd, &c." (Nis gallasai dim braidd fod yn fwy hereticaidd yngolwg Calvin a mwy anfaddeuol.) "Yr oedd hefyd yn Undodwr trwyadl, ac yn ystyried athrawiaeth y Drindod yn ffieiddbeth. Yr oedd yn ystyried Crist yn *ddyn*, ond fel Paul o Samosata, nis gallasai gyfrif am y bennod gyntaf o Ioan, ac weithiau yr oedd yn ei alw ef yn Dduw, ar y dybiaeth fod rhyw drigfan oruchel y Duwdod yn y dyn;" yr hyn oedd yn ei wneud yn deilwng o nodweddiad â pharch dwyfol.

Er i'r *Christianismi Restitutio* gael ei argraphu yn Vienne yn ddirgel iawn, heb enw yr awdwr, y ddinas, na'r argraphydd; er hyny yn rhyw fodd clywodd Calvin am dano, a chafodd gopi o'r gwaith. Nis gwyddys pa fodd y cafodd y copi, rhaid mai yn rhyw fodd dan law, canys nid oedd wedi cael ei gyhoeddi. Yn awr cafodd un William Trie, mawrygwr mawr o honoef, i ysgrifenu llythyr i Lyons yn Mawrth 1553, (neu yn hytrach ef ei hun ysgrifenodd y llythyr hyny yn enw Trie), yn darlunio Servetus yn ddyn dnystriol, ac na ddylai ddianc yn ddigosp; ond ei fod yn haeddu ei losgi, am alw y Drindod, yr hon oedd Calvin a'r Pabyddion yn ei addoli fyn, yn Cerberus, (ci triphen), a gwrthwynebu yr hyn y mae yr ysgrythyrau yn ddysgumewn perthynas i dragwyddol genhedlaeth Mab Duw: ac hefyd yn condemnio bedyddio plant bychain, gan ei alw yn ddyfeisiad diafliaidd, &c. O herwydd y pethau hyn a'u cyffelyb, annoga Calvin y Pabyddion i ddystrywio Servetus. Anfonwyd gyda'r llythyr ysgeler hyn *deitl, cynnwysiad*, a *dail cyntaf* y llyfr. Achwynai Servetus am hyn ar ei *dreial* yn Geneva, a dywedai i Calvin anfon y dail hyn i Lyons er mwyn ei ddal a'i erlyn am *heresi*. Yn lle pythefnos ar ol hyn, anfonodd Calvin gyda'r un dyn uwch law ugain o lythyron a ddarbyniasai oddiwrth Servetus, fel y byddai iddo gael ei euogfroi yn fwy sier am ei *heresi*. Crybwyllwyd am y llythyron hyn yn y ddedryd gyhoeddwyd yn ei erbyn ef yn Vienne. Fel hyn llwyddodd Calvin yn ei amcan gwaedlyd: daliwyd Servetus yn fuan ar ol hyn yn Vienne, trwy awdurdod llythyron William Trie, neu yn hytrach eiddo Calvin. Ni thrinwyd Servetus yn arw

yngharchar y Pabyddion; gorchymynwyd i geidwad y carchar ei drin ef yn fwynaidd, o barch i'w sefyllfa uchel; ond ni roddwyd y fath orchymyn i geidwad Protestanaidd carchar Geneva. Ni charcharwyd Servetus yn hir yn Vienne. Ar ol deuddydd wedi ei gymmeryd i fynu holwyd ef. Y dydd canlynol, cododd am bedwar o'r gloch yn y boreu, a gofynodd ganiatâd ceidwad y carchar i rodio yn yr ardd. Y dyn, wrth ganfod *cap* ar ei ben, a'i ŵn boreuol am dano, a roddodd iddo yr allwedd; ac yn fuan wedi'n aeth gyda'i weision i weithio yn y winllan. Mor gynted ag y canfu y Doctor y cyffiniau yn rhydd, cymmerodd ymaith y *cap du jeôlier*, a'r *gwn nos panag*, a gosododd hwynt wrth fôn coeden, a gwisgodd ei *hat* oedd wedi ei chuddio odditan ei ŵn; neidiodd dros yr uchelfa, aeth i'r cwrt, ac yn fuan croesodd y bont oedd ar yr afon Rhone, a diangodd. Ni wybuwyd iddo ddianc am uwchlaw dwy awr o amser: anfonwyd eirchion i bob man er ei ddal ef, ond methwyd cael gafael arno. Yr oedd yr erlyniad wedi dechreu cyn ei ymadawiad, a dygwyd hi ymlaen yn ei absenoldeb: a chollfarnwyd ef i gael ei losgi yn fyw mewn tân araf. Cyflawnwyd y ddedryd, yn ei lun (*effigy*), ar y 17eg o Mehefin. Cafodd llun Servetus ei osod mewn cart teilog, ynghyd a phump sachbwn o'i lyfrau, a llosgwyd hwynt ynghyd gan y dienyddwr cyhoeddus, a hynny er gogoniant i Dduw, amddiffyniad i'r fydd, a diogelwch yr eglwys!

Ar ol i Servetus ddianc o Vienne, ymguddiodd dros ysbaid o amser, na wyddai neb ymha le. Yn yr amser hynny penderfynodd i ymadaw tua Naples, ac i gario ymlaen i alwad, megis meddyg, ymhlith ei gydwladwyr oeddynt yn byw yn y ddinas honno; un o honynt oedd John Valdesius neu Valdeso, pryd hynny yn ysgrifeniedydd i frenhin Naples, ac hefyd yn Fedyddiwr ac Undodwr. Aeth ar ei draed i Geneva, gan beidio marchogaeth ymhellach na'r lle yr arosodd y nos o'r blaen. Llettyodd yn y Rose Inn, gan gymmeryd arno i hurio bâd i dranoeth er myned i Zurich. Cymmerodd y ffordd tua Geneva yn hytrach na'r un tua Piedmont, mewn gobaith, os delid ef y byddai y Protestaniaid yn fwy trugarog wrtho na'r Pabyddion; ac os erlioed y ffurfiodd y fath cbeithion, canfyddodd ei hun yn fuan ei fod wedi camgymeryd yn fawr. Pan oedd yn disgwyl am fâd i groesi y llyn, clywodd Calvin yn rhywfodd am ei ddyfodiad yno, ac er mai y Sabbath ydoedd, llwyddodd i gael gan y prif raglaw i'w ddal a'i garcharu. Ar y dydd hynny, yn ol cyfreithiau Geneva, nid oedd i unrhyw berson gael ei ddal oddieithr am drosedd angheuol (*capital crime*); ond yr anhawsdra hyn a symmudwyd, trwy i Calvin siarhau fod Servetus yn *heretic*, ac fod *heresi* yn drosedd angheuol. Cafodd gan hynny ei ddal a'i daflu i garchar, a'i drin yn fwy creulon gan y Protestaniaid crefyddol hyn nag y cawsai gan y Pabyddion gwaedlyd. Yr oedd yn ei gylch ef, a chymmerwyd oddiwrtho, medd ei erlynwyr, bedwar ugain a dau ar bymtheg o ddarnau aur, (ond meddai ef ei hun 200), a chadwyn aur yn pwyso tuag ugain *crown*, a chwech modrwy aur. Yr oedd yn awr eisiau rhyw un i ddod ymlaen i'w gyhuddo, neu ei erlyn. Darfu i Calvin osod un o'i dylwyth ei hun, o'r enw Nicholas de la Fontaine, yr hwn, trwy gyfarwyddyd Calvin, a osododd ddeunaw ar ugain o gwynion yn ei erbyn ef, a dymuniad iddo gael ei holi ynghylch pob un o honynt. Dechreuodd ei brawf Awst y 14eg, ar ol hyn cafodd yn fynych ei alw o flaen y llys, weithiau ddydd ar ol dydd dros amryw ddyddiau. Ymchwiliwyd i'w fywyd a'i weithredoedd, gyda bwriad i luosogi y cyhuddiadau, a phob tro yr ymddangosai, yr oedd rhywbeth newydd yn cael ei ddwyn yn

ei erbyn; ond "amharchu Calvin" oedd braidd bob tro yn un o'r beiau a ddygid ymlaen yn ei erbyn. Y prif gyhuddiad oedd mewn perthynas i'w dybiadau am y Drindod (canys yr oedd yn dal nad oedd Crist yn cael ei alw yn yr Ysgrythyr yn Fab Duw, ond yn unig fel yr oedd yn ddyn; ac nad oedd yn Fab Duw er tragywyddoldeb, ond yn unig o amser ei gnawdoliaeth), a'i fod yn gwadu bedydd babanod. Calvin ddarfu roddi i La Fontaine y tystiolaethau fel yr oeddent yn erbyn y carcharor; a dywedodd yn bendant fod y dywededig La Fontaine yn gofyn cyfiawnder yn ei erbyn ef "yn ol ei gynghor ef," ac ni wridodd er dywedyd, "Mi orchymynais i un gael ei fleindio i'w gyhuddo ef, heb wadu fod y cwyn wedi cael ei wneud i fynu yn ol fy nghyngor i." Pa mor anrhydeddus, pa mor ddynol, barned y darllenydd!

Ar yr 21ain o Awst, ymddangosodd Calvin yn y llys, a chydag ef holl weinidogion Geneva, a dadleuodd a'r carcharor ynghylch y geiriau "Person" a "Hanfod," yr hyn na allasai atteb un dyben ond tueddu y llys yn ei erbyn, ac felly parotoi er dinystrio y carcharor. Ar ol i Calvin a'i gyfeillion ymadael, caniataodd y barnwyr i'r carcharor brynu ar ei draul ei hun y llyfrau a ddymunai. Caniatasant hefyd iddo ddefnyddio ysgrifell, ink, a phapyr. Y dydd canlynol anfonodd archiad neu ddeiseb at y Rhaglawiaid a'r cynghor, yn cynnwys tri pheth;—1af, Ceisiodd gael ei ryddhau o'r cyhuddiad beius o gyflafan angheuol (*capital offence*), o herwydd na thybiodd yr apostolion a'r eglwys gyntefig i wneuthur un erlyniad angheuol mewn cysylltiad â'r athrawiaeth Ysgrythyrol, neu âg unrhyw ofyniadau darddant oddiwrthi. 2il, Erfyniai i gael ei ryddhau, o herwydd na ddarfu iddo gyflawni unrhyw drosedd gwladol; gan na fu ef erioed yn gythryblus neu yn derfysglyd; o herwydd na chrybwyllodd hwynt erioed yn Germany wrth ragor na thri; sef, Œcolampadius, Bucer, a Capito; na ddylai, meddai, gael ei gospi am gynnyg gofyniadau i dduwinyddion heb un bradfwriad. Yn olaf, yn ostyngedig erfyniai, trwy ei fod yn ddieithrddyn, ac yn hollol anadnabyddus â chyfreithiau ac arferion y wladwriaeth, ganiatâd iddo gael un i ddadleu ar ei ran, ar ei brawf. Gwrthodwyd y ddeiseb, hyd y nod nacawyd iddo i gael dadleuwr (*counsel*); a daeth yn amlwg eu bod yn barod wedi penderfynu ei ddinystrio.

(*I'w barhau.*)

POENAU TRAGYWYDDOL. Fel yr oedd Simon, y bugeilydd, yn sefyll wrth ochr y wâl er cysgodi ei hunan rhag y storom, gwelodd falwoden yn cwympo i'r domen o bridd a chalch; ac am na allai'r falwoden, oherwydd natur llosgedig y calch, osod un rhan o'i chorph allan o'i chragen, er symud oddi yno, yr oedd yn debyg o aros yn hir mewn poen, ac yn y diwedd i drengu. "Pwy all edrych ar greadur gwael yn y fath sefyllfa," meddai Simon, "heb wneud rhywbeth i leihau ei drueni? Codaf hi i fynu a gosodaf derfyn ar ei phoen mewn tarawiad amrant;" ac mor gynted ac y dywedodd efe a'i gwnaeth. "Mor dyner ac mor garuaidd rhaid fod teimladau y llabwst gwirion acw," meddai Eloisa, yr hon oedd yn ymguddio tan *umbrella* y forwyn, ac yn cysgodi ar bwys; "nis gall edrych ar drueni heb ymdrechu gosod terfyn arno! A ydyw yn bosibl i ni feddwl fod llabwst brwnt yn well na'n Tad nefol? Neu gredu y caniatta yr hwn sydd yn alluog i osod terfyn ar drueni moment, i fyrddiynau o fodau dynol i aros mewn poenedigaethau tragywyddol oherwydd pechodau eu hynafiaid, neu drosedd eu rhieni cyntaf, oherwydd peidio bod yn wrthddrychau cariad etholedig y Goruchaf? Naill ai nid yw Duwdod rhai dynion ddim gwell na Simon, (ac oni allaf ddywedyd, ddim cystal?) neu efe a esyd derfyn ar drueni—o'r hyn lleiaf—y rhai hyny sydd ddim wedi pechu yn ei erbyn yn eu personau eu hunain. Ac oni wna fy Nhad nefol felly? pe gallwn gredu nas gwna hyny, y mae arnaf ofn nas gallwn ei garu mwyach! ond nis gallaf ymattal oddiwrth ei garu, oblegyd y mae yn gynnwysedig ynddo fwy o garedigrwydd ac ewyllys da nag a ddangoswyd erioed mewn ffurf ddynol, cyn iddo gael ei amlygu yn y cnawd trwy Iesu o Nazareth."—*Christian Reformer.*

Gohebiaethau.

Y DIWYGIAD AC ATHRAWIAETH JOHN CALFIN.

Mr. Gol,—Gwedi i mi ddarllen hanes y "Diwygiad yn Sir Aberteifi," a chlywed rhai pregethau o'i blaid, ac awgrymu fod rhyw filoedd o bechaduriaid gwedi cael eu hachub y flwyddyn ddiweddaf trwy weinidogaeth y Parchedigion Humphrey Jones a D. Morgan; yr oedd llawer o honom o'r farn y byddai i'r Trefnyddion Calvinaidd a'r rhai Wesleyaidd ymuno â'u gilydd; sef, y gadawai y rhai Calvinaidd ar ol gyfrau helaeth o sorod Geneva, ac y byddai'r Trefnyddion Wesleyaidd yn ddistaw ynghylch "tref glendid bywyd." Ond nid felly y mae y ddwy blaid; eithr pob un etto yn dwyn mawr sel dros ei gredo. Er i'r Trefnyddion Calvinaidd ddistewi am ychydig, gan adael heibio y rhanau mwyaf tramgwyddus o'u hathrawiaeth, tra yn mrwdaniaeth y diwygiad; etto mae yr hen sorod yn fyw. Fel ergraifft, enwaf yr hyn a ganlyn. Clywais weinidog o'r enw D. Morgan, yr hwn a neillduwyd i waith y weinidogaeth yn sasiwn Awst diweddaf, yn Llangeitho, yn pregethu mewn claddedigaeth merch ieuanc, yr hon a fu farw o'r darfodedigaeth, sef merch Mr. John Jones, Ty'nybwlch, plwyf Llanilar, ar y 15fed dydd o Medi, 1859. Cymerodd ei destun yn Dat. xiv. 13,—"Ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Yspryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt." Yr oedd y pregethwr yn bur gofus am hanes Ioan y Difeinydd; ac ar ol iddo rag-ymadroddi, daeth ymlaen i wneuthur nodiadau ar y personau a nodai'r testun, sef "y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd;" hyny yw, meddai, "rhai wedi gwneuthur proffes allanol o Fab Duw." A chan fod y ferch ieuanc ymadawedig gwedi bod yn dal undeb â'r brodyr Calvinaidd, yr ydoedd y pregethwr yn cymwyso geiriau'r testun ati, sef mai Gwyn ei byd hi. Ar ol hyn gwnaeth gynghori y gwrandawyr oll yn fyr i wneuthur proffes allanol o Fab Duw, gan fod hyn yn anhebgorol angenrheidiol er eu cadwedigaeth; a chynghorodd bawb i ymbarotoi, gan mai byr yw'r amser i ddyn ar y ddaear, &c.

Ond cyn terfynu ei bregeth, ar ol rhoi cynghorion cymhwys a doeth i'r gwrandawyr, gwnaeth y sylw canlynol ar y rhan olaf o'i destun,—"A'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt." Meddai, "Cofiwch, gyfeillion, nid aiff ein gweithredoedd da, neb o honom, ar ol gwneuthur proffes allanol o Fab Duw yn y byd hwn, ymlaen at orsedd y Jehofah i'n cyfiawnhau yno. Nac ânt, gyfeillion; ond cyfiawnder Crist yn unig yw'r hyn a'n cyfiawnha ni ger bron gorsedd y Jehofah; nid yw ein bod yn proffesu ei Fab ef ond yr hyn ag y mae efe yn ddisgwyl oddiwrthym, fel ei greaduriaid. Ac yn awr, cyfiawnder Crist ydyw'r unig beth a wnaiff ein cyfiawnhau ger bron ein Barnwr," &c.

Wel ynte, os ydyw athrawiaeth y pregethwr hwn yn gywir, ofer ydyw'r siarad am "ddiwygiad." Nis gall dim o'n gweithredoedd goreu fod o un lleshad, ond yn unig yn ngolwg y wlad, megis *matter of form*. Onid ydyw yn beth i synnu atto, fod athrawiaeth mor groes i'r Bibl yn cael cymaint o dderbyniad? Ai tybied y mae y pregethwr o Rydfendigaid mai *matter of form* yn unig fydd dydd mawr y farn? Neu nad gwir ydyw yr adnod olaf yn Llyfr y Pregethwr o wlad Canaan; sef, "Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg"?

Pwnge cyntaf mewn Calviniaeth yw, Fod penarglwyddiaeth Duw yn mhob ystyr yn Anymddibynol, yn Ddiamodol, ac yn Annherfynol. Pwnge arall mewn Calviniaeth ydyw, Fod Duw, yn ei benarglwyddiaeth, wedi arfaethu pob peth, mawr a bychan. Gan hyny, gan fod y fath beth ag eilunaddoliaeth, cabledd, godineb, llofruddiaeth, tori Sabbothau, a phob aflendid arall yn bodoli, Duw, yn ol yr athrawiaeth hon, a arfaethodd y cyfan oll o honynt i fod. Yn wir, fe ddywedodd Calvin hyny yn eglur ddigon. A chan fod Duw yn ei Air yn gwahardd y pethau hyn, mae yn canlyn fod Duw yn gwahardd ac yn arfaethu'r un petbau. Am wirionedd y daliadau uchod, gwel "Cyffes Ffydd" y Trefnyddion Calvinaidd, Pen. 12.—

Am Etholedigath Gras.

"Darfu i Dduw er tragywyddoldeb ethol a neillduo Crist i fod yn Ben Cyfamodwr, Cyfryngwr, a Meichniydd i'w eglwys; i'w phrynu a'i gwaredu. Hefyd etholwyd gan Dduw yn Nghrist dyrfa nas gall neb ei rhifo, allan o bob llwyth ac iaith a chenedl, i sancteiddrwydd a bywyd tragywyddol; a threfnwyd moddion i gael hyny yn sier i ben. Ac mae'r etholedigaeth hon yn dragywyddol, yn gyfiawn, yn ben-arglwyddiaethol, yn ddiammodol, yn neillduol, neu bersonol, ac annghyfnewidiol. Ac nid yw Etholedigaeth Gras yn drygu neb, er ddarfod i Dduw yn gyfiawn adael rhai heb eu hethol," &c.

Os ydyw athrawiaeth achubiaeth, fel ei nodwyd gan yr enwog Calvin, ac yn y "Gyffes Ffydd," nid ydyw Diwygiad y flwyddyn aeth heibio ond ymddangosiad yn unig, a chynhyrfiad penboeth fel eiddo addolwyr Juggernaut yn yr India. Yr oeddwn yn meddwl fod yr athrawiaeth uwch Galvinaidd gwedi myned i ddifancoll; ond y mae etto ar gael, fel ei darluniwyd gan ryw brydydd er ys oddeutu 50 mlynedd yn ol. Cymerais y llinellau a ganlyn o hen Gylchgrawn a gyhoeddid yr amser hwnw; ond nid wyf yn gwybod enw y bardd.—

Barn Mr. John Calvin.

Wedi ei chymeryd allan yn fyr o'i Lyfrau.

Mr. John Calvin enwog, cu,
Difeinydd doeth; ca'dd fyrdd o'i du,
I ddadlu ei farn, ni wn pa fodd,
A'i rhoi fel gwir i'r byd ar g'oedd.

I Dduw arfaethu cyn bod byd,
Yn nhragywyddoldeb pell ryw bryd,
I greu y nef a'i llanw â llu,
Angylaidd ryw, nefolaidd ri'.

Ac fe arfaethodd, yr un pryd,
I luoedd mawr o'r nefol fyd,
I godi rhyfel yn y nef,
A chael eu damnio ganddo ef.1

Arfaethodd grëu daiar a dyn,
Glan a hardd, o'i ddelw ei hun;
Yn gyfiawn, doeth, fel dywed Duw,—
Yn llawn o'r gwir sancteiddrwydd gwiw.

A gwnaeth gyfammod, yr un pryd,
Gydag Adda a'i hil i gyd:
"Ffrwyth pob pren cei fwyta, heb wg,
Ond pren gwybodaeth da a drwg."

Os bwytai ffrwyth gwaharddod bren,
Y byddai melltith ar ei ben;
Cai ef a'i had, byth wedi hyn,
Farw o dan y ddedryd syn.

Er hyn arfaethodd Duw y dyn
I syrthio'n gwbl o'i fodd ei hun;
A thori y cyfammod gwiw,
Yn ol rhyw ddirgel 'wyllys Duw.2

Cyn hyn, yn nhragwyddoldeb maith,
Y bu'r Cyfammod Gras ar waith,
Rhwng Duw yr hedd a'i Fab ei hun,
I ethol rhai o hil y dyn.3

A rhai'n a nodwyd oll i gyd.
I'w hachub cyn eu dod i'r byd;
A'r lleill i gyd, nid allent gael
Byth gymmod hedd gan y Duw hael.4

A bod holl ddrygau rhai'n i gyd
Yn ol ei 'wyllys ef o hyd;
Lladradau, mwrddrau, o bob rhyw,
A'r holl 'lanasdra dua ei liw.5

Nid godde'n unig mae efe,
Ond *trefnu* rhai'n i gym'ryd lle;
Ac, ar ol hyn, eu cosbi mae,
Am ddrwg eu gwaith—dragwyddol wae.

Fe grewyd Adda, er mor bur,
I'r diben iddo syrthio'n wir;
A'r nifer fwya' o'i hil i gyd,
I gael eu damnio yr un pryd.6

Trwy effaith, rhagordeiniodd Duw,
Cyn bod y byd nac enaid byw;
Nid trwy rag-wybod yr hyn a wnaent,
Y trefnodd Duw y gosp a gaent.7

Mae Duw'n eu galw, digon gwir,
I ddychwel, wrth ei eiriau pur;
Ond nid effeithiol alwad yw,
Ond er eu poenau o bob rhyw.8

Mae'n galw fel na chlywont hwy!
'N rhoi golau fel na welont mwy;
Rhoi meddyginiaeth o'u bluen mae,
Nid er eu hiechyd, ond er eu gwae!

Ei allu anorchfygol ef
Sydd yn eu cauad oll o'r nef;
Arfaethwyd hwy i bechu'n hy',
A myn'd i'r tân a'r tw'llwch du.9

1 Calvin's Inst., Book 1st, chap. 16, sec. 8. 2 Calvin's Respon., &c., Inst., sec. 8.
3 Calvin's Inst., Book 3, chap. 23. 4 Calvin's Inst., b. 4, c. 21, s. 1 & 7.
5 Calvin's Inst., c. 17, s. 5. 6 Do. b. 3, c. 22, s. 1. 7 Do. b. 1, c. 24, s. 12.
8 Do. b. 3, c. 24, s. 13. 9 Do. b. 1, c. 17, s. 11.

Ond ar yr etholedig had
Mae'n galw yn effeithiol rad:
Fe rag-ordeiniodd rhai'n i gyd,
Er iddynt bechu yn y byd.

Ac o'i wir nawdd fe'u dwg i'r nef,
Er mawl i'w rad drugaredd ef;
A'r lleill, fe allai bechodd lai,
Cant fyn'd i boenau am eu bai!

Er mawl i'w arfaeth arw ef,
Cant byth wylofain arw lef;
Yn mhlith y diafliaid, dan ei lid,
Eu lle a drefnodd cyn bod byd.

Ai dyma farn John Calvin wiw?
Ni chredwn m'oni yn fy myw;
Mi greda'n wir fod Duw yn well
Nag y dywedodd ef, yn mhell.

Am ei anughredu mynnodd ef
Gael llosgi un o blaid y nef;
Michael Servetus dduwiol, ddoeth,
Ddibenwyd yn y fflamiau poeth.

Nid aeth ar drai yr ysbryd drwg,
Pa beth ywr llid, a beth yw'r drwg;
Ac oni b'ai cyfreithiau'r tir,
Llusgid a llosgid etto'n wir.

CARWR-DIWYGIAD ARALL.

Ger Ysbytty Ystwyth,
Ceredigion.

CIP OLWG AR Y DIWYGIAD.

MR. GOL.,—Ni wn i ddim ond trwy glywed neu ddarllen, am y Diwygiad (fel ei gelwir) yn Sir Aberteifi. Ac yr wyf fi, fel eraill yn Morganwg, heb gael fy moddloni etto mai o Dduw mae y peth sydd a chymaint o son wedi bod am dano. Ond yr wyf wedi cael cyfleusdra i weled rhai o'i ffrwythau. Ac, yn wir, Syr, yr wyf yn rhwym o addef, eu bod wedi peri i mi amheu gwirionedd y Diwygiad; a dyna p'am yr wyf mor ofn a chynnyg yr ychydig sylwadau canlynol i'r *Ymofynydd*.

Nos Fawrth, yr 16eg o Ionawr, aethym i gapel y Methodistiaid Calvinaidd yn Mhenybont, i wrandaw un Mr. Owens (os wyf yn cofio yn iawn) o ryw le yn Sir Aberteifi. Yr oedd yn pregethu ar y diwygiad, a dywedodd fel hyn: "Y mae y diwygiad crefyddol yn Sir Aberteifi ymron a llanw y lle, ac y mae pawb yn llifo at grefydd; ac oni bai un sect o ddynion ag sydd yno, buasai y Sir yn dduwiol i gyd. Mae y sect hon yn galw eu hunain yn Undodiaid; ond yr ydym ni yn eu hadnabod wrth yr enw Sosiniaid —dynion mor galed (digrefydd?) fel nad ydyw argyhoeddiad y diwygiad presennol yn cyffwrdd â hwynt. Y dynion hyn sy'n blino'r wlad."

Wrth glywed hyn, gofynais i mi fy hun, Ai dyma un o'r ffrwythau—drwgliwio ac absennu cymmydogion? A ydyw y diwygiad a ddechafir gymmaint, am ddileu y gorchymyn, "Na fernwch, fel na'ch barner"? Ac onid gwell fuasai i'r pregethwr geisio chwynu ei ardd ei hun?

Ac am ei ddull yn pregethu i'r bobl ac yn eu harwain yn yr addoliad—yr wyf yn rhwym o ddyweyd, na welais i ddyn erioed a ymddangosai yn fwy am ddwyn annhrefn a therfysg i dŷ Dduw. Yr oedd yn neidio ac yn gwaeddi, nes braidd hurtio fy 'mhenydd wrth geisio ei wrandaw. Ond er hyn oll, ac er gwneud y fath ystumiau ar ei wynebpryd a'r na welais i erioed o'r blaen—fe ffaelodd, er pob peth a chael y dylanwad a ddymunai ar y bobl. Nid oedd ei waith yn ceisio eu dychrynu yn cael nemawr o effaith chwaith.

Wrth weled hyn, meddyliais ynof fy hun, Wel, mae'n debyg fod y pregethwr yn teimlo yn siomedig oherwydd canfod fod y gwrandawyr prydferth sydd yma, yn ymddangos bron mor bell o gael eu cyffwrdd gan yr argyhoeddiad dymunol ag yd-oeddUndodiaid Sir Aberteifi. A meddyliais hefyd, am y ffordd newydd a ddangosai o addoli Duw, nad yw yn un *diwygiad* ar y ffordd efangylaidd o "addoli yTad mewn yspryd a gwirionedd" Ond heb eich blino â rhagor y tro hwn,

Gorphwysaf, yr eiddoch, &c.,
J. C.

Gorwenydd.

Kanesion Sartrefol a Thramor.

Budget Mr. Gladstone,—Dyma'r pwnc mawr ag y mae sylw'r wlad yn gyffredinol, y dyddiau hyn, yn troi arno. Y mae un peth ag sydd yn rhoddi pwysigrwydd arbenig i'r Budget hwn; tuhwnt i un a gynnygwyd erioed o'r blaen i gymeradwyaeth y Senedd, sef, bod yn gyssylltiedig ac yn mhlŷg âg ef bethau ag sy'n debyg o fod o les anghydmarol i'n gwlad ac i'r byd yn gyffredinol—cytundeb masnachol â Ffraingc, chwanegiad a sicrhad heddwch a chyfeillgarwch rhwng y ddwy wlad: a thrwy hyny cydweithrediad nerthol er cadw heddwch trwy Ewrop a'r byd, Diau ei bod yn werth aberthu rhyw faint er mwyn cael hyn. Y mae rhai yn beio ar y Cyttundeb (*Treaty*) â Ffraingc, am ei fod yn *unochrog*, fel y dywedant, neu yn fwy ffafriol i Ffraine nag i Brydain Fawr; nad yw Ffraingc ddim wedi dangos cymaint o barodrwydd a ni, i symmud y rhwystrau sydd ar ffordd helaethiad rhyddfasnach. Gadewn ei bod felly. Hefyd dichon y bydd y cyfnewidiad i achosi peth colled, am ryw amser, i ambell i ddosparth o'n gweithwyr a'n masnachwyr ni; ond byddant hwy o'r tu arall i gael gyfranogi o'r lleshad a'r llwyddiant cyffredinol. Ac y mae yn ddigon amlwg y bydd helaethiad masnach rhyngom â Ffraingc i fod yn ffafriol dros ben i'r gweithi haiarn a glo, trwy Gymru a Lloegr.

Cynnygir fod yr *Income Tax* i fod yn ddeg ceiniog y bunt, a bod y *duties* ar Dê a Siwgr i barhau fel y maent. Ond ymddengys nas gellir eu hebgor, yn ngwyneb 10 miliwn, ag sydd yn ddiffygiol, ac wedi cyfodi yn benaf oddiar y draul aethpwyd iddi yn y parotoadau er gosod y wlad mewn cyflwr o ddiogel amddiffyniad.

Ynghyd a diwygiadau ereill, ar drefn y cyllid wladol, y rhai a ddygant berthynas mwy neu lai uniongyrchol â diwydrwydd, moesoldeb, a chysur y bobl, y mae un cynnygiad yn y Budget ag sy'n ymddangos yn neillduol haeddiannol o gofnodiad yn yr *Ymofynydd*; sef, dilead y dreth ar bapyr, neu, fel ei gelwid, nid yn amhriodol, y dreth ar wybodaeth (*tax on knowledge*). Byddai y dilead o fantais ddirfawr i'r argraff-wasg; a thrwy hyny yn offerynol i ymdaeniad gwybodaeth a moesoldeb, ac i llenyddiaeth gyffredinol, A chan y cynnygir hefyd fod pob matter printiedig i gael ei drosglwyddo trwy y post ar delerau rhattach nag y gwneir yn bresennol, y mae yn ddiau genym y bydd ein darllenwyr i gyduno â ni, i ddymuno llwydd i Mr. Gladstone a'i Budget

Sefyllfa y Weinyddiaeth.—Diellir fod Gweinyddiaeth Arg. Palmerston, a'r Cyttundeb a Ffrainc, i sefyll neu syrthio gyda'r Budget. Ac y mae y blaid wrthwynebol eisioes wedi dangos penderfyniad i wneud pob ymdrech er cael gwrthodiad o'r naill, er mwyn dadymchwelyd y llall. Gwnaeth Mr Disraeli gynnyg i'r perwyl, ond mewn modd llechwrus, dydd Llun y 20fed o Cwhefror; ond cafodd ef a'i blaid eu siomi y tro hwnw. Pan ranwyd y Tŷ, yr oedd

Dros y Gwelliant.....	230
Yn ei erbyn.....	293
Mwyrif o blaid y Weinyddiaeth	63

Ar y 24ain, daeth treial etto, pan y dangosodd Ty y Cyffredin eu golygiadau ar y pwnc mewn modd tra phenderfynol.

Dros y Budget, yr oedd	339
Yn ei erbyn	223
Mwyrif o blaid y Weinyddiaeth	116

Y Cyfandir.—Mae cyflwr Itali ac Ewrop ar y pryd hwn yn bur heddychol; ac ar y cyfan yn obeithiol. Mae y Pab o Rhufain p'odd bynag yn parhau i achwyn yn dost; ond dywed, "mai yr unig ddial y myn ef gael ar wrthwynebwyr a gau gyfeillion ydyw, gweddio drostynt," Esiampl dda, rhaid addef! Ni allasai St. Paul na St. Pedr wneud dim yn rhagor, neu'n well. Ond nid yw etto wedi tystio edifeirwch am ei ddrwg lywodraeth, nac addaw un gwellhad.

Ysgol Sul Hen-dy-cwrdd, Aberdar.

Yr ydys gwedi gwneuthur amrywiol gynnygiadau yn y blynyddau aethant heibio i sefydlu Ysgol Sul yn y Capel uchod; ond, o herwydd oerfelgarwch a difaterwch y sawl y perthyn iddynt, yn hollol aflwyddianus. Oddiar Tachwedd y 6fed, 1859, y mae cynnyg adnewyddol wedi ei wneud etto; ac wrth yr arwyddion presennol, y mae yr Ysgol yn ymddangos yn obeithiol iawn. Athrawon y chwarter diweddaf oeddent a

ganlyn:—Arolygydd: David Jones, peirianydd. Gwrrywod:—Yn dysgu'r egwyddor, J Jones, (*Eiddil Glan Cynon*); darllen, John Morgan; Testamentau, T. J. Jones, (*Cynonwyson*); dosparth Ymresymu, E. R. Jenkins. Menywod:—Yn dysgu'r egwyddor, Miss Mary Watkins; darllen, Mrs. Jones; Testamentau David James; cofnodydd, Lewis Noah Williams.

Rhif yr ysgolheigion am y chwarter yn diweddu y 5ed cyfisol oedd—

Gwrrywod—yn yr	Egwyddor	117	
"	" Sillebu ..	124	
"	" Darllen .	241—482	
Menywod—yn yr	Egwyddor	186	
"	" Sillebu ..	137	
"	" Darllen..	108—431	
	Cyfanswm . ..		913

Fe welir oddiwrth y cyfrif uchod fod canolrif yr ysgol bob Sul gyda eu gilydd yn 70. Mae yn llawen gennym ddyweyd ein bod wedi cael adroddiadau gan David James, John Rees, a Thomas G. Thomas, Miss Catherine Jenkins, a Miss Joannah Rees. A theimlwn yn ddyledswydd arnom i sylwi fod yr adroddiadau oll yn rhagorol dda; ac am eu llafur gwobrwywyd y cyfeillion rhagenwol â phob o lyfryn bychan, yn cynnwys rhan o Gatecism y Dr. Priestley. Hefyd y mae yn falch der mawr gennym i hysbysu fod yma Obeithlu (*Band of Hope*) gwedi ei ffurfio tua'r un amser a'r ysgol Sul, o dan arweiniad David Davies; ac yn wir y mae yn syndod a boddhad o'r mwyaf i glywed y rhai bychain hyn yn canu mor soniarus a rheolaidd; y maent yn dangos ymdrech a llafur mawr eu harweinydd. Mae ysgol Sul Saesneg gwedi ei dechreu boreu y Sul diweddaf, o dan arweiniad Cynonwyson.

Fel y sylwyd yn barod, y Sul diweddaf oedd pen y chwarter, pan y neilluwyd athrawon newyddion; ond barnwyd mai gwell oedd gadael Cynonwyson heb ei newid, oherwydd ei fod yn fwy hyddysg na'r lleill o honom mewn darllenyddiaeth. Athrawon y tri mis canlynol:—Gwrrywod, yn dysgu'r egwyddor, David James; darllen, E. D. Howell; Testamentau, T. J. Jones, (*Cynonwyson*); dosparth ymresymmu, Jenkin Williams. Menywod, yn dysgu'r egwyddor, Miss Mary Watkins, a Miss Margaret Watkins; darllen, Daniel Rees; Testamentau, Morgan Lewis. Arolygydd, J. Jones (*Eiddil Glan Cynon*); cofnodydd, Thomas G. Thomas.

Trecynon, *Chwef.* 9, 1860. CYNFAB CARW, Cofnodydd.

MARWOLAETHAU.

Bu farw, yr 21ain o Ragfyr diweddaf, yn ei 77 mlwydd oed, John Jones, Penrhiwrhod, ymhlwyf Llandyssil, swydd Aberteifi, a adnabyddir yn well i ddarllenwyr yr *Ymofynydd* wrth yr enw ffugiol ddefnyddiai, sef *Ioan Triphlyg*. Trwy fod y cyfaill ymadawedig wedi hanu o rieni,o ran amgylchiadau bydol, isel, ni chafodd ond ychydig o fanteision dysgeidiaeth; yr oedd yn feddianol ar gynheddfau naturiol mwy bywiog na'r cyffredin, a meddianai, i raddau helaeth, ddawn neilluol i ganu a phrydyddu, a pharodrwydd anghyffredin i ymddadlu ar unrhyw bwnc fyddai ef yn gwybod ond ychydig yn ei gylch; gosodai ei feddwl allan mewn modd medrus a deallus, fel mai anhawdd oedd yn fynych ei wrthwynebu; pa le bynnag y byddai ef yn bresenol ymhlith ei gydradd, byddai ei ffordd ddifyr yn tynnu sylw y gymdeithas Mae darllenwyr yr *Ymofynydd* yn ddyledus i Ioan Triphlyg am lawer darn o brydyddiaeth ymddangosodd yn ei dudalenau.

Bu yn ei ieuenctyd yn Fedyddiwr Calvinaidd, ond dros y 40 mlwydd olaf o'i oes yr oedd yn aelod gyda'r Undodiaid, yn hyderus bob amser, ie, pan weithiau dan gymylau, fod Duw yn goruwch lywodraethu pob peth yn y modd goreu. Weithiau byddai ei *philosophy* ef ar y Beibl yn methu cyduno ymhob peth. Gadawodd briod, a mab a merch ar ei ol, a therfynodd ei yrfa mewn oedran têg ar ol bod yn nychlyd, etto yn amyneddgar, dros yspaid faith o'i amser diweddaf.

TITUS EVANS.

Ionawr 17, yn bedwar mis oed, bu farw maban Mr. John James, Nag's Head, Llandeilo.

Cysged yn dawel yn y pridd,
Nes delo'r adgyfodiad ddydd;
Maes o law fe'i gwelir ef,
Yn harddaf em yn nheyrnas nef.

CYFAILL.

Ionawr 19, yn 2 flwydd oed, o'r *scarlet fever*, bu farw William, mab William a Sarah Powell, o Fforch-y-garren, Blaengwrach. Teimla y rhieni yn bur alarus ar ol eu plentyn hoff. Dydd Sadwrn canlynol, cyn cychwyn tua chladdfa'r teulu yn mynwent Eglwys Penderyn, pregethodd y Parch. W. Williams, Hirwaun, ar yr achlysur, oddiwrth 1 Thess. iv. 14.

Ionawr 24, yn 36 mlwydd oed, bu farw Margaret, anwyl wraig Mr. John Jenkins, Penybrynmawr, Ystrad. Yr oedd i'w gwr yn serchog, i'w phlant yn dyner, i'w chymydogion yn anwyl, ac i'r tylodion yn haelious. Yr oedd yn aelod hardd o eglwys Undodawl Rhydygwin. At ei Phriod:—

Os ydwyf fel rhyw blentyn ffol,
Afradlon, heb ddychwelyd 'nol
I dŷ ei dad a byw,
Mae genyf etto galon bur
A gydymdeimla dan bob cur
A thi, fy nghyfaill, clyw.

Mi glywais am dy golled fawr,
Sef colli Marged, deg ei gwawr,
Mwyn fam dy anwyl blant;
Mae dagrau lon'd fy llygaid i,
Ond beth all fod dy deimlad di,
Ei rhoi o'r byd i bant!

* * * *

Gad hiraeth trist, yn wrol dos,
Myn oleu dydd, gad dywyll nos,
Er mwyn dy hun a'th blant;
Gwel gariad Duw,—na feia'r gam,
Am iddo fyn'd ag anwyl fam,
Dy blantos bach i bant.

A llygad ffydd, heb amheu dim,
Daioni gwel os yw yn llym,
Gwel law dy nefol Gun;
Diamheu yw, fy anwyl ffrynd,
Mai fry i'r nef mae wedi myn'd,
I fyw at Dduw ei hun.

'Nawr, gan ei bod yn eithaf dir
Dy fod yn credu yn y gwir
O'r adgyfodiad mawr,
Distewi wnaf; bydd wych, bydd iach,
Cewch etto gwrdd mewn gronyn bach,
'N y nef, yn deg eich gwawr.

DAN HUWS.

Barddoniaeth.

Y GROESAW I NOL.—Cyfd.

Ton, "Merch Megan."

O! melus yw'r adeg i gartref wna'n cyrchu,
Lle idd ein cyfarfod y llamma pob bron,
Lle ar ein dyfodiad mae dwylaw'n ymdrechu
Am gael bod y blaenaf i'n cyfarch yn llon;
Pan rhy'r byd i'r eithaf ei wgau a'i fawrddig,
Pan gwedi'n llymwasgi b'o gofal a'i bwys,
Mae'n felus dychwelyd o'n llwybr crwydredig, [dwys;
A mwynhau cartrefol fendithion mawr
O! anwyl, O! anwyl, a thra gorfoleddus,
Yw'r daith tua chartref o'n crwydriad tra ffol,
Os ni fydd pryd hynny yn wir ymwybodus,
Y byddwn yn sicr o Roesaw i Nol.

I beth y petruswn ar ffordd flin anwastad,
Er in' fod yn unig, a'n dál gan y nos.
Os gwyddom fod genau geryddant ein oediad,
A llygaid belydrant lon gariad yn dlos?
Beth gwerth yw disgleirdeb drud berlau, wrth dremiad [llon,
Y llygad wreichiona hawddgarwch pur
Pan eglur amlyga hoff eiriau'n groesawiad,
Ein bod yn brif wrthrych serchiadau y fron?
O! anwyl, O! anwyl, a thra gorfoleddus,
Yw'r daith tua chartref o'n crwydriad tra ffol,
Os ni fydd pryd hynny yn wir ymwybodus,
Y byddwn yn sicr o Roesaw i Nol.

Trecynon. CYNONWYSON.

DAU BENNILL AR RYDDID.

Ton, "Serch Hudol."

Hoff air a'i sain yn swyno sydd,
Uwch cathlau pêr eosau'r gwydd,
Try'n hyspryd prudd yn llon;
Clywch! RHYDDID yw, mae'n rhoddi bri,
Ac auraidd glod i Brydain gu,
Y mwynaf fan o'n daiar ni,
A nefol fri i'r fron;
Lle nad yw'r reddfol reol hon,
Diaddurn ydyw tir a thon,
A'r galon fraena dan y fron:
Lle alon llawn o frad,
Ni furmur yr afonig fwyn,
A'r rhosyn ter ni fedd un swyn,
Ac wyla'r eos ar y llwyn,
A'r dyn a gwyn o wlad!

Trwm rwygiad y ddaiar-gryn gref,
Am RYDDID mae yn rhoddi llef,
A tharan nef yr un;
Lle nad yw RHYDDID mewn mwynhad,
Afonydd liwia dynol wa'd,
Llais natur ydyw gwir ryddhad,
Nef freiniad yw i ddyn;
Ond lle bo RHYDDID, bydd y gan,
Ac odlau byw wna'r wlad ar dan,
O folawd i'n Creawdwr glan,
Ail Eden wiwlan yw;
Traidd ias pêr sain y delyn fad,
Gan odli RHYDDID trwy ein gwlad,
A theimlir awydd am barhad,
Gwir gariad goreu'i ryw.

Tongwynlas. G. BRYCHEINIOG.